

‘Gadewch i mi ffynnu’




Adolygiad cenedlaethol
o gymorth cynnar, gofal a
chefnogaeth a’r trefniadau
trosglwyddo i blant anabl
yng Nghymru



Cynnwys

Rhagair	2
Cyflwyniad	4
Fframwaith a chyd-destun yr adolygiad cenedlaethol	5
Camau y mae angen eu cymryd	7
Canfyddiadau allweddol	8
Casgliad	48
Beth sy'n digwydd nesaf	50
Cydnabyddiaethau	51
Atodiadau	52
<ul style="list-style-type: none">• Atodiad 1: Ein dull gweithredu: y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad cenedlaethol• Ffigur 1: Plant sy'n derbyn gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2020, yn ôl awdurdod lleol ac anabledd• Ffigur 2: Plant sy'n derbyn gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2020, yn ôl statws derbyn gofal ac anabledd	

Sut i gysylltu â ni

-  Ein ffonio: 0300 7900 126
-  Anfon e-bost aton ni: AGC@llyw.cymru
-  arolygiaethgofal.cymru

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi'r adolygiad cenedlaethol hwn. Mae'r adroddiad yn cyflwyno prif ganfyddiadau ein hadolygiad o ba mor dda y mae awdurdodau lleol, gan weithio gyda'u partneriaid, yn darparu help, gofal a chymorth cynnar a threfniadau trosglwyddo i blant anabl yng Nghymru.

Dechreuodd rhaglen yr adolygiad cenedlaethol ym mis Tachwedd 2019. Pan oeddem ran o'r ffordd drwy raglen yr adolygiad, dechreuodd pandemig COVID-19. Ym mis Mawrth 2020, wrth i gyfraddau heintio gynyddu ac wrth i'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau ddechrau yng Nghymru, ataliwyd ein rhaglen arolygu ac adolygu dros dro er mwyn i awdurdodau lleol allu canolbwyntio'n llwyr ar ymateb i'r sefyllfa ddigynsail. Er gwaethaf yr amgylchiadau heriol, roeddem o'r farn ei bod yn hanfodol parhau â'r gwaith pwysig, o ystyried effaith bosibl y pandemig ar wasanaethau i blant anabl a'u rhieni/gofalwyr. Ailddechreuwyd ar raglen adolygu ddiwygiedig a byrrach ym mis Medi 2020.

Wrth i ni ddechrau adfer o'r pandemig, rwyf wedi myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd gennym o'r adolygiad. Yr hyn sy'n amlwg yw pwysigrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd yn cydweithio'n ddi-dor â phlant anabl a'u teuluoedd, i hyrwyddo llesiant plant yng Nghymru. Dim ond pan fydd awdurdodau lleol, byrddau iechyd, darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys y trydydd sector, yn gweithio gyda'i gilydd, gan sicrhau bod llesiant plant bob amser yn ganolog i bopeth a wnânt, y bydd modd helpu plant anabl i ffynnu a chyflawni canlyniadau cadarnhaol, hybu eu hannibyniaeth ac atal eu hanghenion rhag dwysáu mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

Mae'n dda gennyf nodi i'r adolygiad gynnwys 'rhaglen beilot i arolygwyr sy'n gymheiriaid', a oedd yn cynnwys tri ymarferydd a oedd wedi'u cyflogi gan awdurdodau lleol yn gweithio fel rhan o'r timau arolygu. Bu'r rhaglen beilot yn llwyddiant ysgubol a nodwyd buddiannau cadarnhaol gan bawb a gymerodd ran. Mae'r broses ddwyffordd o rannu gwybodaeth a sgiliau mor bwysig ar gyfer datblygiad parhaus ac yn sicr o fod yn fuddiol i'r rhai a fu'n rhan o'r adolygiad. Hoffwn ddiolch i'r ymarferwyr a'r awdurdodau lleol a wirfoddolodd i gymryd rhan yn y rhaglen beilot werthfawr hon.

Fe'n cefnogwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) hefyd. Drwy hynny, atgyfnerthwyd ein hymrwymiad i weithio gyda'n gilydd er mwyn i'r arolygiaethau allu ystyried sut mae pobl yn cael cymorth di-dor ym maes gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd.

Mae ein canfyddiadau yn tynnu sylw at ymarfer cadarnhaol a hefyd at feysydd lle mae angen gwelliannau. Mae tirwedd gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd wedi newid o ganlyniad i'r pandemig, ac mae'n bosibl nad yw'r un fath â'r hyn ydoedd pan ddechreuwyd ar yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae cyfle i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r pandemig ac ymatebion arloesol ein gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd iddo. Dylai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn wrth iddynt fyfyr ar y pandemig a chynllunio sut y byddant

yn darparu gwasanaethau integredig yn y dyfodol, a hynny mewn ffordd sy'n rhoi buddiannau pennaf plant anabl wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau. Ni allaf orbwysleisio pa mor bwysig yw hyrwyddo hawliau plant anabl a'u rhieni/gofalwyr, gan sicrhau bod eu lleisiau yn ganolog i'r penderfyniadau a wneir.

Hoffwn achub ar y cyfle i dynnu'ch sylw at gyhoeddi ein [hadroddiad trosolwg cenedlaethol o archwiliadau sicrwydd o wasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion](#).

Yn olaf, i gloi, mae'n rhaid i mi gydnabod ymroddiad eithriadol staff gofal cymdeithasol a gofal iechyd ledled Cymru. Ar ran pawb yn Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), hoffwn fynegi ein hedmygedd mawr a'n diolch.



Gillian Baranski
Prif Arolygydd
Arolygiaeth Gofal Cymru


Cyflwyniad

Mae angen cymorth ar bob plentyn i'w alluogi i gyrraedd ei lawn botensial. Gall y graddau y caiff plant anabl gymorth i ffynnu a chyrraedd eu llawn botensial ddibynnu ar y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol a sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd ac mewn partneriaeth â theuluoedd i sicrhau bod plant¹ yn gallu cael gafael ar y cymorth cywir ar yr adeg gywir ac yn derbyn y cymorth hwnnw.

Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar brofiad plant anabl a'u teuluoedd wrth iddynt ddod ar draws gwasanaethau cymdeithasol a chael cyngor, wrth iddynt gael eu cyfeirio at wasanaethau cymunedol ac wrth iddynt gymryd rhan mewn asesiadau a derbyn gofal a chymorth. Gwnaethom hefyd ystyried plant anabl â phrofiad o ofal² a'r ffordd roedd pobl ifanc anabl yn cael cymorth i drosglwyddo i ofal a chymorth gan wasanaethau oedolion.³

Ni ddylai gallu plentyn i gyflawni ei lawn botensial fyth ddibynnu ar ba mor ddygn a di-ildio yw ei rieni/gofalwyr, na ble mae'n byw yng Nghymru. Ni ddylai plant anabl na'u teuluoedd yng Nghymru y mae angen cymorth arnynt fod yn 'syrthio rhwng bylchau', yn rhan o broses rhy fiwrocraidd nac mewn anghydfodau rhwng ieuchyd, gofal cymdeithasol a/neu weithwyr proffesiynol/sefydliadau eraill.

Mae'r adroddiad yn nodi ein canfyddiadau allweddol, gan gynnwys cryfderau a meysydd i'w gwella, pwyntiau dysgu o ran ymarfer ac, yn bwysicaf oll, y camau gweithredu y bydd angen eu cymryd i wella canlyniadau llesiant i blant anabl a'u teuluoedd.



1 Pan gyfeiriwn at 'plentyn' neu 'plant' rydym yn golygu plentyn neu blant anabl.

2 Pan gyfeiriwn at 'plant â phrofiad o ofal', rydym yn golygu plentyn/plant sy'n/sydd wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol ac sydd/sydd wedi bod yng ngofal awdurdod lleol.

3 Nid oedd yr adolygiad yn ystyried darpariaeth/cymorth addysgol i blant a phobl ifanc anabl.

Fframwaith a chyd-destun yr adolygiad cenedlaethol

Wrth gynnal ein hadolygiad mabwysiadwyd dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau. Darparwyd y fframwaith deddfwriaethol ac egwyddorol/moesegol gan y model cymdeithasol o anabledd⁴, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011, Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014').

Drwy gyflawni dyletswyddau a swyddogaethau Deddf 2014 bwriedir sicrhau bod pobl yn cael eu cynorthwyo i arfer eu hawliau a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod, cyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Mae Deddf 2014 yn cefnogi mwy o weithio amlasiantaethol, modelau newydd o ofal a arweinir yn y gymuned a gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Mae'n gosod gofynion ar gyfer cydweithio rhanbarthol, a fframwaith deddfwriaethol i orfodi hyn, os bydd angen, rhwng awdurdodau lleol eu hunain a rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

Roedd yr adolygiad yn ystyried sut roedd y pedair egwyddor sy'n sail i Ddeddf 2014 yn gwneud gwahaniaeth i lesiant plant anabl a'u teuluoedd:

- **Pobl – llais a rheolaeth:** Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod lleisiau plant anabl a'u rhieni/gofalwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth a'u bod yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau?
- **Atal:** I ba raddau y mae awdurdodau lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?
- **Llesiant:** I ba raddau y mae awdurdodau lleol yn hybu llesiant plant anabl a'u rhieni/gofalwyr gan eu helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?
- **Partneriaeth:** I ba raddau y mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo ac yn manteisio i'r eithaf ar weithio mewn partneriaeth, darparu gwasanaethau integredig a sbarduno'r broses o ddatblygu gwasanaethau a chynaliadwyedd gwasanaethau?

⁴ Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn nodi ffordd wahanol o edrych ar anabledd – yn hytrach na diffinio pobl yn bobl anabl yn ôl eu nam (h.y. y model meddygol o anabledd), ystyrir bod pobl â nam yn anabl yn ôl y rhwystrau corfforol, agweddol a sefydliadol a grëir gan gymdeithas.

Cyfyngiadau'r adolygiad

Mae hybu llais pobl yn sail i holl weithgarwch AGC. Fodd bynnag, yn ystod yr adolygiad, roedd cyfyngiadau COVID-19 a natur fregus annatod rhai plant anabl yn golygu mai cyfyngedig oedd ein cyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a'u teuluoedd.

Aethom ati i weithio mewn ffordd mor rhyngweithiol â phosibl yn ystod yr adolygiad. Roeddem wedi gallu cynnal rhywfaint o weithgarwch grŵp ffocws gyda phlant cyn dechrau'r pandemig, yn ogystal â rhai cyfweiliadau rhithiol a thros y ffôn â phobl yn ystod y pandemig. Gwnaethom hefyd hyrwyddo'n helaeth arolwg electronig pwrpasol i rieni/gofalwyr gyda chymorth awdurdodau lleol.

Roedd y dulliau ⁵ a ddefnyddiwyd i gael gwybodaeth ar gyfer yr adolygiad yn cael eu hadolygu drwy'r amser a'u diwygio/ addasu yn ôl y sefyllfa genedlaethol a lleol. Er gwaethaf effaith y pandemig, mae'n dda gennym nodi bod y gwaith a wnaed wedi ein galluogi i nodi'r ymarfer cadarnhaol sy'n parhau i ganolbwyntio'n gadarn ar brofiad plant yn ogystal â meysydd i'w gwella.

⁵ Manylir ar y dull a ddefnyddiwyd i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad yn yr atodiadau.

Camau y mae angen eu cymryd

I awdurdodau lleol:

- rhaid iddynt hyrwyddo a mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc
- rhaid i hawliau a hawliadau gofawr gael eu hyrwyddo
- rhaid rhoi trefniadau effeithiol ar waith i gyfathrebu â phlant anabl. Dylid defnyddio'r dull o gyfathrebu a ffeirir gan y plentyn, dylai ei lais gael ei geisio, ei glywed a'i gofnodi'n gyson.
- rhaid i'r meini prawf cymhwysra ar gyfer mynediad i wasanaethau statudol fod yn hollol gyson â Deddf 2014
- rhaid i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant anabl feddu ar sgiliau digonol a chael hyfforddiant digonol mewn perthynas â'r tasgau y maent yn eu cyflawni/y disgwylir iddynt eu cyflawni wrth weithio gyda phlant a'u teuluoedd
- dylid datblygu a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgynghori â phlant anabl a'u rhieni/gofawr
- dylid adolygu a chymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod gwybodaeth ddigonol a hygyrch, a chynghor a chymorth amserol ar gael i blant anabl a'u teuluoedd
- sicrhau bod y 'Cynnig Rhagweithiol' o wasanaeth a ddarperir yn Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n gyson a'i ddarparu
- sicrhau bod y 'Cynnig Rhagweithiol' o eiriolaeth ffurfiol annibynnol yn cael ei hyrwyddo'n gyson a'i ddarparu
- adolygu a sicrhau bod systemau sicrhau ansawdd effeithiol a systemau cofnodi gwybodaeth ar waith i asesu a gwerthuso ansawdd ac effaith gwaith gyda phlant anabl a'u teuluoedd, ac at ddibenion cynllunio a darparu gwasanaethau a bodloni gofynion statudol
- rhaid bod ymarferwyr a phartneriaid yn deall trothwyon a phrosesau diogelu yn dda a'u cymhwyso'n drylwyr mewn perthynas â phlant anabl fel y maent yn achos plant nad ydynt yn anabl

- digon o leoliadau lleol addas, ac mae'n rhaid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd chwarae, cyfleoedd cymdeithasol a hamdden, a chyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth er mwyn diwallu anghenion plant anabl a phobl ifanc
- rhaid ymgymryd â gwaith cynllunio trefniadau trosglwyddo yn amserol ac mae'n rhaid iddo gynnwys plant anabl, a'u teuluoedd a gweithwyr proffesiynol/asiantaethau perthnasol
- sicrhau y caiff y Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc – Ionawr 2020 – eu dilyn
- rhaid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio a chomisiynu ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol
- sicrhau y cymerir y camau angenrheidiol i gydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer Statudol ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth
- sicrhau trefniadau addas i roi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith yn ôl y bwriad a chydymffurfiaeth â nhw

I fyrddau iechyd lleol:

- adolygu darpariaeth iechyd i blant anabl gyda'r bwriad o nodi anghenion nas diwallwyd a bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a chymryd camau i fynd i'r afael â diffygion mewn darpariaeth iechyd
- sicrhau bod digon o leoliadau lleol addas i blant anabl ag anghenion iechyd cymhleth/anghenion gofal parhaus
- sicrhau y caiff y Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc – Ionawr 2020 – eu dilyn
- rhaid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio a chomisiynu ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol
- sicrhau y cymerir camau i gydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer Statudol ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth
- sicrhau trefniadau addas i roi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith yn ôl y bwriad a chydymffurfio â nhw

Canfyddiadau Allweddol


Nododd ein hadolygiad 19 o ganfyddiadau allweddol.

Rydym wedi gosod ein canfyddiadau allweddol o dan y pedair egwyddor sy'n sail i Ddeddf 2014. Caiff lefel gyffredinol y gwelliant sydd ei angen mewn perthynas â'n canfyddiadau allweddol ei chyfleu mewn lliwiau. Mae coch yn dangos bod angen gwelliant; mae melyn yn dangos bod angen rhai gwelliannau/atgyfnerthu; mae gwyrdd yn dangos canfyddiadau cadarnhaol y dylid eu cynnal a'u datblygu.

Rydym wedi cynnwys data, pwyntiau dysgu o ran ymarfer a meysydd i'w gwella, enghreifftiau o ymarfer cadarnhaol a sampl o sylwadau gan bobl y gwnaethom siarad â nhw ac a roddodd eu barn.

Canfyddiadau Allweddol

Pobl – llais a rheolaeth



Canfyddiad allweddol 1: Llais y plentyn: Rhaid i'r gwaith o geisio a chlywed llais plant anabl gael ei gryfhau a'u hyrwyddo'n fwy rhagweithiol

'Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arno a'i farn yn cael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif.' Erthygl 12 CCUHP

Dyweddodd pobl ifanc anabl wrthym pa mor bwysig ydoedd eu bod yn teimlo bod eu gweithiwr cymdeithasol yn ceisio dod i'w hadnabod. Er bod gweithwyr proffesiynol wedi darllen ei ffeil, dywedodd un person ifanc wrthym

“dyw hi ddim yn golygu eu bod wir yn eich adnabod nac yn gwybod sut rydych yn teimlo.”

Dyweddodd pobl wrthym:

“Mae gan fy mhentyn maeth berthynas ragorol â'i weithiwr cymdeithasol ac mae'n edrych ymlaen at ei weld.”
(Gofalwr maeth)

“Mae gan fy mab berthynas wych â'n gweithiwr cymdeithasol.” *(Rhiant/Gofalwr)*

“O ran plant sydd ddim yn gallu siarad o gwbl neu sy'n dawel mae angen i [weithwyr proffesiynol] weithio'n galed i ddod i'w hadnabod.”
(Person ifanc anabl)

“Mae fy ngweithiwr cymdeithasol ac fy meddyg yn siarad â fy modryb yn hytrach na mi. Mae hynny'n fy ngwylltio. Fe ddylen nhw siarad â mi.”
(Person ifanc anabl)

Ar y cyfan, gwelwyd ymarfer amrywiol ledled Cymru o ran pa mor dda roedd llais a dewisiadau plant anabl yn cael eu ceisio, eu clywed a'u cofnodi.

Gwelsom rai enghreifftiau da o ymdrechion y staff i feithrin cydberthnasau proffesiynol â phlant a'u teuluoedd. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd tystiolaeth o waith uniongyrchol yn amlwg yn y cofnodion achos; ac roedd yn amlwg bod ymarferwyr⁶ yn adnabod y plentyn yn dda ac wedi cymryd gofal a'r amser i ofyn am eu barn, gan nodi a defnyddio'r dull o gyfathrebu a ffafriwyd gan y plentyn.

Enghraifft o ymarfer:

Roedd gweithiwr cymdeithasol wedi ymgymryd â gwaith uniongyrchol gyda phlentyn a oedd yn dewis cyfathrebu drwy ddefnyddio system cyfathrebu cyfnewid lluniau. Roedd y gwaith a wnaed gan y gweithiwr cymdeithasol yn cynnwys holi am ddymuniadau a theimladau'r plentyn. Cyfarfu'r gweithiwr cymdeithasol â'r plentyn a defnyddiodd y system cyfathrebu cyfnewid lluniau er mwyn sicrhau bod plentyn yn gallu mynegi ei ddymuniadau a'i ddewisiadau.

⁶ Pan gyfeiriwn at 'ymarferydd' rydym yn golygu staff yr awdurdod lleol sy'n gweithio gyda phlant anabl a'u teuluoedd.

Roedd y mwyafrif o'r rhieni/gofalwyr a'u plentyn/plant anabl gyda gweithiwr cymdeithasol yn teimlo bod y gweithiwr cymdeithasol wedi dod i adnabod y plentyn/plant yn dda neu'n dda iawn. Roedd ychydig dros hanner y rhieni/gofalwyr yn teimlo bod y gweithiwr cymdeithasol yn cyfathrebu'n dda neu'n dda iawn â'u plentyn/plant anabl. Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, gyda chanran dipyn yn uwch o rieni/gofalwyr yn ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiynau mewn rhai awdurdodau lleol.

Nid oedd gwybodaeth am ddulliau cyfathrebu plant na manylion cyfathrebu â'r plentyn bob amser yn glir mewn cofnodion achos unigol. Dywedodd ymarferwyr wrthym fod adnoddau cyfathrebu a oedd yn hwyluso cyfathrebu â phlant ar gael iddynt, ond nid oedd tystiolaeth ar gael bob amser i ddangos ymdrechion ymarferwyr i ddefnyddio'r rhain. Dywedodd rhai ymarferwyr ei bod weithiau yn anodd iddynt gyfathrebu'n effeithiol â phlentyn ag anghenion cyfathrebu cymhleth ac yn yr achosion hyn eu bod yn defnyddio arsylwadau a safbwyntiau a roddwyd gan deulu'r plentyn/pobl a oedd yn adnabod y plentyn yn dda.

Gwelsom enghreifftiau o'r 'Cynnig Rhagweithiol'⁷ yn cael ei wneud i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg, ond nid oedd y cynnig ar gael yn gyson ym mhob gwasanaeth ym mhob awdurdod lleol.

Ar y cyfan, gwelsom fod amrywiaeth o hyfforddiant ar gael i ymarferwyr a oedd yn gweithio gyda phlant anabl. Nid oedd pob ymarferydd wedi cael hyfforddiant a oedd yn berthnasol i anghenion cyfathrebu penodol y plant unigol yr oeddent yn gweithio gyda nhw a nodwyd ganddynt y byddai hyfforddiant arbenigol yn fuddiol.

Yn ystod y pandemig, gwelsom fwy o ddefnydd o gyfathrebu digidol. Er bod rhai pobl yn gweld y gall hyn fod mor effeithiol â chyfarfod wyneb yn wyneb, i rai plant anabl, yn enwedig y rhai ag anghenion cyfathrebu cymhleth neu nam gwybyddol, gall cyfathrebu digidol fod yn heriol.

Pwyntiau dysgu o ran ymarfer a meysydd i'w gwella:

- mae cyfathrebu'n effeithiol â phlant anabl yn hollbwysig o ran sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei geisio a'i glywed. Mae'n bwysig bod ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant yn cael yr amser a'r cyfleoedd i ddod i adnabod y plentyn yn dda, er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o gryfderau, anghenion a dymuniadau'r plentyn a sicrhau ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn⁸
- ni ddylid mabwysiadu dull 'un ateb i bawb' i gyfathrebu â phlant anabl. Rhaid i awdurdodau lleol asesu'n rheolaidd y dull mwyaf priodol i'w ddefnyddio i gyfathrebu gyda phlant unigol
- rhaid rhoi cyfleoedd i ymarferwyr ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a'u gwybodaeth. Bydd hyn yn eu helpu i gyfathrebu'n effeithiol â phlant anabl a'u rhieni/gofalwyr

⁷ Cynnig rhagweithiol: Darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg heb fod angen i rywun ofyn am hynny

⁸ Yn canolbwyntio ar yr unigolyn: Mae'n golygu sicrhau bod yr unigolyn yn rhan o bob penderfyniad a chynllun ar gyfer gofal a chymorth. Mewn gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ystyrir bod pobl yn bartneriaid cydradd yn y gwaith o gynllunio, datblygu ac asesu anghenion gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn briodol i anghenion yr unigolyn ac y byddant yn cyflawni canlyniadau llesiant.

Canfyddiad allweddol 2: Eiriolaeth: Rhaid cryfhau'r cynnig rhagweithiol o eiriolaeth broffesiynol annibynnol i blant anabl

Mae adran 21 (7) o Ddeddf 2014 yn rhoi hawl statudol i bob plentyn y mae angen gofal a chymorth arnynt gael eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae Deddf 2014 hefyd yn rhagdybio bod unrhyw blentyn ag anabledd yn blentyn y bydd angen gofal a chymorth arno yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu gan deulu'r plentyn.

Er i ni weld llawer o enghreifftiau o rieni/gofalwyr ac ymarferwyr yn eirioli ar ran plant anabl, gwelsom nad oedd plant anabl yn cael eu cynrychioli ddigonol a'u cyfeirio at eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Gwelsom hyfforddiant/sesiynau codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth i ymarferwyr ond gwelsom rai enghreifftiau o ddiffyg ymwybyddiaeth o berthnasedd eiriolaeth broffesiynol annibynnol, gan gynnwys eiriolaeth heb ei chyfarwyddo, ymhlith ymarferwyr.

Pwyntiau dysgu o ran ymarfer a meysydd i'w gwella:

- mae angen gwelliant er mwyn sicrhau bod y cynnig rhagweithiol o eiriolaeth yn cael ei wneud i blant anabl a'u bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu hunaneiriolaeth
- dylai ymarferwyr ddeall gwerth a swyddogaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol, gan gynnwys eiriolaeth heb ei chyfarwyddo



Canfyddiad allweddol 3: Rhieni/Gofalwyr: Rhaid gwella'r broses o hyrwyddo hawliau a hawliadau rhieni/gofalwyr. Mae hwn yn faes blaenoriaeth i'w wella

'Rhaid i awdurdod lleol asesu a oes angen cymorth ar ofalwr (neu a yw'n debygol o fod angen cymorth yn y dyfodol) ac os felly, beth yw'r anghenion hynny neu beth maent yn debygol o fod. Diffinnir gofalwr yn y Ddeddf fel person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl.' Cod Ymarfer Rhan 3 (Deddf 2014)

Mae Deddf 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc a gofalwyr plant anabl. Roedd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw ar y cyfan yn ymwybodol o rôl gofalu sylweddol llawer o rieni/gofalwyr plant/pobl ifanc anabl, ac effaith eu rôl gofalu. Er gwaethaf hyn, nododd y data a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ledled Cymru mai ychydig iawn o rieni/gofalwyr plant anabl a oedd wedi cael asesiad gofalwr neu gynllun cymorth..

Dywedodd rhieni/gofalwyr wrthym:

“Ni chefais gynnig asesiad gofalydd, ond ar ôl brwydro am 15 mis, fe ges un yn y diwedd.”

“Cymerodd asesiad gofalwr flynyddoedd i'w gwblhau a chafodd ei wneud pan oedd ef ddipyn yn iau. Mae'r sefyllfa wedi newid gryn dipyn yma dros y pum mlynedd diwethaf ond nid wyf wedi cael un arall.”

Cadarnhaodd y dogfennau a welwyd ac adborth rhieni/gofalwyr nad oedd asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu cynnig yn rheolaidd na'u cwblhau yn unol â gofynion deddfwriaethol.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi cael cynnig asesiad gofalwr, dywedodd tua 66% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd “na.”

Gwelsom golli cyfleoedd i helpu rhieni/gofalwyr. Dywedodd nifer o ymarferwyr wrthym fod llawer o rieni/gofalwyr yn gwrthod asesiad gofalwr. Nid oedd tystiolaeth ar gael bob amser i gadarnhau hyn.

Gwelsom enghreifftiau o'r cymorth a roddwyd i rieni/gofalwyr a oedd yn cynnwys mynediad i grwpiau a sesiynau cymorth i rieni/gofalwyr. Gwelsom enghreifftiau o grantiau i ofalwyr yn cael eu defnyddio'n greadigol i helpu rhieni/gofalwyr, er enghraifft, i brynu peiriant golchi ac ariannu seibiant byr i riant/gofalwr.

Enghraifft o ymarfer: Nododd rhieni/gofalwyr sy'n mynd i grŵp cymorth yng Nghonwy y byddai'n fuddiol pe baent yn cael cyfle i ddilyn cwrs ar Makaton (rhaglen unigryw sy'n defnyddio symbolau, arwyddion a lleferydd i alluogi pobl i gyfathrebu yw Makaton). Darparodd yr awdurdod lleol gyllid drwy'r Gronfa Gofal Integredig i aelodau'r grŵp gael hyfforddiant Makaton. Darparwyd cyllid ychwanegol hefyd i aelodau'r grŵp gael sesiynau iechyd meddwl a llesiant.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar wasanaethau cymorth i rieni/gofalwyr. Nodwyd gennym fod rhai gwasanaethau wedi rhoi'r gorau i weithredu a bod eraill yn cael eu darparu mewn ffyrdd gwahanol. Dywedodd llawer o rieni/gofalwyr wrthym nad oeddent yn cael y lefel o gymorth yr oedd ei hangen arnynt, gan ddisgrifio'r effaith niweidiol arnynt hwy, eu plentyn/plant anabl a'u teulu.

Pwyntiau dysgu o ran ymarfer a meysydd i'w gwella:

- rhaid i awdurdodau lleol fabwysiadu dull gweithredu 'sy'n seiliedig ar hawliau' mewn perthynas â gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys bod yn rhagweithiol drwy hysbysu a hyrwyddo eu hawliau a'u hawliadau i gael asesiad a chymorth lle yn gymwys
- mae'n bwysig bod ymarferwyr awdurdodau lleol yn ymwybodol o ofynion Deddf 2014 mewn perthynas ag asesu gofalwyr a diwallu anghenion cymwys
- mae angen gwella'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn casglu gwybodaeth am asesu anghenion gofalwyr fel mater o reol
- dylai awdurdodau lleol ystyried monitro nifer y rhieni/gofalwyr sy'n gwrthod asesiad a lle'n bosib, nodi'r rhesymau dros hyn, er mwyn llywio datblygiadau gwasanaethau yn y dyfodol
- mae'n bwysig bod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn adolygu'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr er mwyn sicrhau bod eu llesiant yn cael ei hyrwyddo a'i ddiogelu. Dylai arweinwyr sicrhau bod hwn yn faes blaenoriaeth i'w wella

Canfyddiad allweddol 4: Cofrestrau: Rhaid sefydlu a chynnal cofrestrau o blant anabl yn unol â Deddf 2014

‘Rhaid i awdurdodau lleol sefydlu a chynnal cofrestr o blant yn ardal yr awdurdod lleol sy’n anabl neu sydd â nam corfforol neu feddyliol sy’n arwain at anghenion gofal a chymorth, neu a allai arwain at yr anghenion hynny yn y dyfodol.’ Rhan 2 (Deddf 2014)

Nodwyd gennym nad oedd pob awdurdod lleol wedi cydymffurfio â gofyniad Deddf 2014 i sefydlu a chynnal cofrestr o blant anabl. Mae’r wybodaeth hon yn hollbwysig er mwyn cynllunio gwasanaethau sy’n diwallu anghenion plant anabl yn awr ac yn y dyfodol.

Pwynt dysgu o ran ymarfer a maes i’w wella:

- rhaid i awdurdodau lleol gymryd y camau angenrheidiol i gydymffurfio â gofynion Deddf 2014 a sefydlu a chynnal cofrestr o blant yn ardal yr awdurdod lleol sy’n anabl neu sydd â nam corfforol neu feddyliol sy’n arwain at anghenion gofal a chymorth, neu a allai arwain at yr anghenion hynny yn y dyfodol

Mae gan blant anabl yr hawl i nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt, cael eu trin â pharch, cael eu hurddas, eu preifatrwydd, eu dewisiadau, eu diwylliant, eu hiaith, eu hawliau, eu credoau, eu barn a'u dymuniadau eu parchu a chael y cymorth sydd ei angen arnynt i gadw'n ddiogel. Dylai ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant anabl fod yn onest, yn unigolion y gellir ymddiried ynddynt ac yn ddibynadwy a dylent gael eu hyfforddi i wneud eu gwaith yn briodol.

Yn ystod yr adolygiad, gwnaethom siarad ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol, iechyd a gwasanaethau addysg a'r trydydd sector a chael adborth ganddynt. Roedd y gweithwyr proffesiynol yn ymroddedig ac yn ymrwymedig i sicrhau canlyniadau da i blant anabl.

People told us:

“Mae ein gweithiwr cymdeithasol wedi bod yn anhygoel o ran dod o hyd i'r cymorth sydd ei angen arnon ni, mae heb ei hail.”

(Rhiant/Gofalwr)

“Mae'n anodd dod i nabod gweithwyr cymdeithasol newydd pan fyddant yn newid. Mae'n well gen i siarad â fy ffrindiau. Maen nhw'n fy nabod yn well.”

(Person ifanc anabl)

Gwelsom ymarferwyr awdurdodau lleol yn gweithio gyda phlant anabl i hyrwyddo parch ac urddas. Roedd ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan gydweithwyr a rheolwyr a bod morâl y gweithlu yn dda ar y cyfan. Roedd y mwyafrif o'r ymarferwyr a arolygwyd gennym yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi â'u llwythi achosion. Gwelsom

ymdrechion awdurdodau lleol i gefnogi llesiant y staff.

Dywedwyd wrthym am blant a theuluoedd yr oedd eu hymarferydd wedi newid sawl gwaith. Roedd rhai swyddi gwag mewn rhai timau a nododd rhai awdurdodau lleol eu bod yn wynebu heriau wrth recriwtio gweithwyr cymdeithasol medrus a phrofiadol. Nododd awdurdodau lleol fod recriwtio a chadw'r gweithlu yn faes blaenoriaeth iddynt.

Pwynt dysgu o ran ymarfer a maes i'w wella:

- mae'n bwysig cadw'r un ymarferydd er mwyn helpu plant anabl i ddatblygu perthynas gadarnhaol lle maent yn teimlo bod yr ymarferydd yn eu hadnabod yn dda a bod cyfathrebu effeithiol

Canfyddiadau Allweddol

Llesiant



‘Mae gan bobl plentyn yr hawl i gael ei amddiffyn rhag pob math o drais, camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth wael.’ Erthygl 19 CCUHP

Mae diogelu plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth o dan Ddeddf 2014. Mae gan blant anabl yr un hawliau dynol i fod yn ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod, i gael eu hamddiffyn rhag niwed ac i gyflawni canlyniadau da â phlant nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag, mae angen cymryd camau gweithredu ychwanegol yn achos plant anabl oherwydd agweddau negyddol ynglŷn â phobl anabl a mynediad anghyfartal at wasanaethau ac adnoddau. Efallai y bydd gan blant anabl anghenion corfforol, synhwyraidd a chyfathrebu ychwanegol a/neu namau gwybyddol.

Bu cynnydd cyffredinol yn nifer y plant (gan gynnwys plant anabl) a oedd yn derbyn gofal a chymorth ac a oedd wedi’u henwi ar y gofrestr amddiffyn plant ond nad oeddent yn blant yng ngofal yr awdurdod lleol. Ar 31 Mawrth 2019, roedd 2,115 o blant nad oeddent yn anabl yn derbyn gofal a chymorth ond nid yng ngofal yr awdurdod lleol wedi’u henwi ar y gofrestr amddiffyn plant. Roedd y nifer hwn wedi cynyddu i 2,195 (cynnydd o 4%) erbyn 31 Mawrth 2020. Ar 31 Mawrth 2019, roedd 95 o blant anabl yn derbyn gofal a chymorth ond nid yng ngofal yr awdurdod lleol wedi’u henwi ar y gofrestr amddiffyn plant. Roedd y nifer hwn wedi cynyddu i 115 (cynnydd o 21%) erbyn 31 Mawrth 2020.⁹

Gwelsom fod awdurdodau lleol a’u hymarferwyr yn cydnabod bod diogelu yn flaenoriaeth. Roedd prosesau diogelu ar gyfer plant anabl yn foddhaol. Yn gyffredinol, roedd pwyslais ar sicrhau dealltwriaeth gyffredin o ddiogelu a’r angen i gadw plant yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o gydweithio da rhwng partneriaid. Clywsom sut mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig cyfleoedd i ymarferwyr sy’n gweithio gyda phlant anabl a’u teuluoedd fyfyrion a dysgu o ymarfer diogelu, gan gynnwys o adolygiadau cenedlaethol o ymarfer plant. Roedd hyn yn rhoi cyfle i dynnu sylw at feysydd i’w gwella.

Yn achos nifer bach iawn o blant anabl, gwelsom fod y ffocws ar eu nam(au) yn golygu nad oedd pryderon ynghylch diogelu yn cael eu cydnabod yn ddigonol bob amser ac felly nad oedd y cynllun gofal a chymorth dilynol yn sicrhau yr eid i’r afael â risgiau i’r plentyn a’i anghenion.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod rhai awdurdodau lleol wedi rhoi gwybodaeth a hyfforddiant a oedd yn ymwneud yn benodol â diogelu plant anabl i ymarferwyr.

⁹ Atodiadau - ffigur 2. Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy’n derbyn gofal a chymorth 2020 Llywodraeth Cymru - Plant sy’n derbyn gofal a chymorth yn ôl statws derbyn gofal ac anabled

Pwyntiau dysgu o ran ymarfer a meysydd i'w gwella:

- rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod trothwyon a gweithdrefnau diogelu yr un mor drylwyr i blant anabl ag y maent yn achos plant nad ydynt yn anabl
- mae'n bwysig bod ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol yn cydnabod bod plant anabl yn fwy agored i gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae hefyd yn bwysig deall y rhwystrau y gall plant anabl eu hwynebu o ran cyfathrebu, a hefyd ddarparu ar gyfer unrhyw fesurau diogelu ychwanegol sydd eu hangen i'w hamddiffyn



Canfyddiad allweddol 7: Mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth: rhaid cryfhau'r ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor a chymorth i blant anabl a'u teuluoedd

'Mae gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus ag urddas a, hyd y gellir, annibyniaeth a chwarae rhan weithredol yn y gymuned. Mae'n rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.' Erthygl 23 CCUHP

Mae'r mwyafrif o blant anabl yn byw gyda rhieni/gofalwyr cefnogol sy'n sicrhau y caiff eu hanghenion eu diwallu ac sy'n eirioli ar ran eu plentyn/plant.

Dyweddodd y plant anabl a ddaeth i'n digwyddiadau ymgysylltu wrthym mai'r oedolion pwysicaf yn eu bywydau oedd yr aelodau o'r teulu a oedd yn eirioli ar eu rhan, yn brwydo drostynt ac yn mynd â nhw i apwyntiadau. Nodwyd, er mwyn i bobl ifanc gael eu helpu i fod yn annibynnol, y bydd angen helpu eu rhieni a'u gofalwyr o bosibl i deimlo'n hyderus ynglŷn â mynnu hawliau eu plentyn.

Mae'n debygol y bydd angen rhywfaint o wybodaeth, cyngor a chymorth ar rai plant anabl a'u rhieni/gofalwyr i'w helpu i gyflawni canlyniadau da.

Dyweddodd rhieni/gofalwyr wrthym nad oeddent bob amser yn gwybod ble i fynd i gael cyngor neu wybodaeth am wasanaethau, gweithgareddau neu adnoddau cymunedol. Nid oedd pob rhiant yn ymwybodol o adnodd Dewis Cymru.¹⁰ Nid oedd pob ymarferydd ychwaith yn defnyddio Dewis Cymru i gyfeirio teuluoedd at gymorth cymunedol a chyfleoedd cymdeithasol.

¹⁰ Gwefan sy'n cynnig siop un stop ar gyfer llesiant yng Nghymru yw Dewis Cymru. Mae'n darparu cyfeiriadur sy'n galluogi pobl i gael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau mewn meysydd megis iechyd, rheoli arian a diogelwch. Gall y rhai sy'n mynd i wefan Dewis Cymru ddewis y categori sydd o ddiddordeb iddynt ac mae amrywiaeth o gyngor a dolenni i wasanaethau ar gael.

Beth ddywedodd rhieni/gofalwyr wrthym::

"Rwy'n teimlo nad oes digon o wybodaeth ar gael i rieni/gofalwyr ynglŷn â phwy, beth neu ble i fynd am gymorth am blant anabl a'u brodyr/chwirydd/teuluoedd."

"Rydym yn rhieni hyderus (penderfynol) sy'n sbarduno'r broses. Mae angen bod yn fodlon mynnu pethau."

Pan ofynnwyd i rieni/gofalwyr plant anabl nodi pa welliannau y gellid eu gwneud mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer eu plentyn/plant, roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

"Darparu gwybodaeth glir am hawliau gofalwyr a phlant anabl."

"Dylid hysbysu teuluoedd am y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned. Nid ydych chi'n gwybod beth nad ydych yn ei wybod."

Dywedodd ychydig dros hanner y rhieni/gofalwyr a arolygwyd wrthym eu bod wedi gofyn am wybodaeth, cyngor a chymorth gan eu hawdurdod lleol yn ystod y flwyddyn cyn cwblhau'r arolwg. O'r rhain, dywedodd mwyafrif eu bod wedi cael ymateb ychydig yn ddefnyddiol, defnyddiol neu ddefnyddiol iawn.

Mae darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd uchel yn amserol yn fesur ataliol a lle bo angen hynny, dylai gael ei ddarparu mewn modd amserol a dylai gynnig cymorth i helpu pobl cyn bod anghenion yn dwysáu neu cyn iddynt gyrraedd sefyllfa argyfyngus.

Enghraifft o ymarfer: Paneli mynediad unigol ar gyfer llesiant emosiynol ac iechyd meddwl plant, sydd ar waith yn y pum ardal awdurdod lleol yng Ngwent. Mae'r paneli yn cyfarfod bob wythnos ac yn derbyn cyfeiriadau o sawl ffynhonnell, gan gynnwys rhieni a theuluoedd. Mae'r paneli yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, gwasanaethau ieuenctid a chwaraeon a hamdden, tai, cwnsela yn yr ysgol, gofalwyr ifanc a'r trydydd sector. Mae'r paneli yn anelu at ystyried amgylchiadau unigol y teulu ac ymateb i anghenion, hyd y gellir.

Roedd rhieni/gofalwyr yr oedd eu plant anabl yn derbyn cymorth gan wasanaethau cymdeithasol yn gwerthfawrogi'r cymorth ar y cyfan. Fodd bynnag, dywedodd rhai wrthym eu bod wedi wynebu oedi cyn bod eu plentyn/plant wedi derbyn y cymorth yr oedd ei angen arnynt.

Beth ddywedodd rhieni/gofalwyr wrthym:

“Mae'n gwneud byd o wahaniaeth os oes gennych weithiwr cymdeithasol da y gallwch siarad â nhw.”

“I ddechrau, fe ges i gynnig 3 awr o seibiant bob pythefnos a chwpl o oriau o weithgareddau cymdeithasol y mis i fy mab. Fe wnes i frwydro am 12 mis arall i gael rhagor.”

“Sut mae rhywun fod i wybod sut i fynd ati i gael cymorth gan wasanaethau cymdeithasol? Dw i ddim wedi cael unrhyw seibiant o gyfrifoldebau gofalu ac rwyf ar fy mhen-gliniau yn emosiynol gan na alla gael unrhyw le i mi fy hun.”

Gwelsom enghreifftiau o wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da, gyda thystiolaeth o ymateb amserol ac effeithlon i ymholiadau, a chyfeiriadau priodol at sefydliadau eraill neu at wasanaethau eraill yr awdurdod lleol. Yn yr enghreifftiau hyn, roedd pobl yn gallu cael yr wybodaeth, y cyngor a/neu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir a chafodd hyn effaith gadarnhaol ar eu llesiant. Gwelsom hefyd rai enghreifftiau o oedi cyn cael gwybodaeth, cyngor a/neu gymorth priodol a oedd wedi arwain at ddwysáu anghenion a mwy o risg o argyfwng.

Pwyntiau dysgu o ran ymarfer a meysydd i'w gwella:

- mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod plant anabl a'u teuluoedd yn gyson yn cael yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth cywir a hynny ar yr adeg gywir
- ni ddylai fod unrhyw 'ddrws anghywir'¹¹ i blant anabl a'u teuluoedd



¹¹ Adroddiad Comisiynydd Plant Cymru - 'Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant.' Mae'r adroddiad yn nodi sut mae plant a'u teuluoedd sy'n ceisio cymorth ar gyfer amrywiaeth o anghenion yn aml yn gorfod mynd drwy system gymhleth iawn, y gallai fod bylchau lle nad oes unrhyw wasanaethau i ddiwallu eu hanghenion, neu eu bod ar restr hir am gyfnod hir dim ond i gael gwybod eu bod yn aros yn y ciw anghywir, neu eu bod wedi bod yn cnocio ar y drws anghywir o'r dechrau.

Canfyddiad allweddol 8: Asesu a chynlluniau gofal a chymorth: rhaid cryfhau prosesau asesu a chynllunio gofal a chymorth

‘Rhaid i awdurdod lleol asesu a yw plentyn angen gofal a chymorth ac os felly, beth yw’r anghenion hynny. Wrth gyflawni’r asesiad rhaid i’r awdurdod lleol asesu anghenion datblygiadol y plentyn, a cheisio nodi’r canlyniadau y dymuna’r plentyn eu sicrhau (i’r graddau y mae’n meddwl bod hyn yn briodol yn unol ag oedran a dealltwriaeth y plentyn), a’r canlyniadau y dymuna’r unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn eu sicrhau mewn perthynas â’r plentyn (i’r graddau y mae’n meddwl bod hyn yn briodol yn unol â’r angen i hyrwyddo llesiant y plentyn).’ Cod Ymarfer Rhan 3 (Deddf 2014)

Bu cynnydd yn nifer y plant (gan gynnwys plant anabl) sy’n derbyn gofal a chymorth. Ar 24 Mawrth 2020, roedd 16,580 o blant ledled Cymru yn derbyn gofal a chymorth (16,420 yn 2019, sef cynnydd o tua 1%). O’r rhain, roedd 3,600 (3,575 yn 2019, sef cynnydd o tua 1%) yn blant anabl.¹²

Mae’n bwysig bod y dull asesu yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawn o’r hyn sy’n digwydd i blentyn yng nghyd-destun ei deulu a’r gymuned ehangach, ac yn ystyried yn ofalus natur y rhyngweithio rhwng y plentyn, y teulu a ffactorau amgylcheddol. Ar y cyfan, gwelsom fod rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o asesu anghenion a chynllunio gofal a chymorth i’w plentyn/plant anabl yn gyffredinol.

Roedd ansawdd yr asesiadau a’r cynlluniau gofal a chymorth yn amrywio rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru, a hefyd y prosesau sicrhau ansawdd a oedd ar waith i’w monitro. Roedd yr enghreifftiau gorau yn sicrhau bod llais a dewis y plentyn anabl ac aelodau o’i deulu yn cael lle blaenllaw mewn asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth. Roedd cryfderau, risgiau a rhwystrau wedi’u diffinio’n glir, roeddent yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac roedd cynlluniau wrth gefn clir ar waith. Mewn enghreifftiau eraill, gwelsom fod angen gwelliannau am nad oedd llais na dewis y plentyn yn amlwg, ac nad oedd cryfderau, risgiau na chanlyniadau wedi’u nodi’n glir.

Roedd nifer o awdurdodau lleol ledled Cymru wedi cymryd camau, neu wrthi’n cymryd camau, i gryfhau asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth.

¹² Gweler yr atodiadau ffigur 1. Ffynhonnell: Cyfrifiad plant sy’n derbyn gofal a chymorth 2020 Llywodraeth Cymru. Mae’r Cyfrifiad o blant sy’n derbyn gofal a chymorth yn seiliedig ar y diffiniad o blant cymwys sy’n derbyn gofal a chymorth, h.y. plant (o dan 18 oed) sydd â chynllun gofal a chymorth (gweler yr atodiadau).

Roedd trefniadau ar gyfer adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn amrywio ledled Cymru. Yn yr enghreifftiau gorau, gwelsom fod yr adolygiadau wedi cael eu cynnal mewn modd amserol, bod llais y plentyn anabl a'i rieni/gofalwyr wedi cael ei geisio, ei glywed a'i gofnodi. Roedd gweithwyr proffesiynol/asiantaethau perthnasol a oedd yn ymwneud â'r plentyn a'i deulu wedi cael y cyfle i gyfrannu at yr adolygiad. Roedd cynnydd o ran sicrhau canlyniadau a nodwyd wedi'i nodi'n fanwl.

Pwyntiau dysgu o ran ymarfer a meysydd i'w gwella:

- mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod pob asesiad a chynllun gofal a chymorth yn seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn cydymffurfio â'r codau ymarfer perthnasol
- dylai systemau sicrhau ansawdd fod yn effeithiol o ran sbarduno gwelliant parhaus a chydymffurfiaeth â gofynion statudol

Canfyddiad allweddol 9: Cymorth i frodyr a chwiorydd/gofalwyr ifanc: Rhaid i gymorth i frodyr a chwiorydd/gofalwyr ifanc gael ei gryfhau

‘Mae gan bob plentyn yr hawl i orffwys, ymlacio a chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chreadigol.’ Erthygl 31 CCUHP

Yn eu hymatebion hunanwerthuso, nododd awdurdodau lleol eu bod yn gyffredinol yn ystyried anghenion brodyr a chwiorydd/gofalwyr ifanc plant anabl fel rhan o'r broses asesu. Disgrifiodd llawer o ymarferwyr sut roeddent wedi ystyried y cymorth a oedd ei angen ar frodyr a chwiorydd/gofalwyr ifanc ond nid oedd hyn bob amser wedi'i adlewyrchu yn yr asesiadau na'r cynlluniau gofal a chymorth a welsom.

Gwelsom enghreifftiau o gymorth yn cael ei roi i frodyr a chwiorydd/gofalwyr ifanc plant anabl. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni/gofalwyr a arolygwyd y byddai'n fuddiol i frodyr a chwiorydd pe baent yn cael cymorth ychwanegol.

Mae rhestrau aros ar gyfer rhai gwasanaethau ar gyfer brodyr a chwiorydd/gofalwyr ifanc. Darperir rhai o'r gwasanaethau ar gyfer brodyr a chwiorydd/gofalwyr ifanc drwy ddefnyddio cyllid byrdymor, sy'n arwain at ansicrwydd ynglŷn â chynaliadwyedd y gwasanaethau hyn.

“Roedd fy mhlentyn hynaf yn rhan o'r Prosiect Gofalwyr Ifanc ac wrth ei bodd ond gofynnwyd iddi adael ar ôl blwyddyn oherwydd rhestrau aros. Mae'r ffaith ei bod wedi gorfod gadael wedi cael effaith andwyol arni.” (*Rhiant/gofalwr*)

Ar y cyfan, gwelsom fod cymorth i frodyr a chwiorydd/gofalwyr ifanc plant anabl yn anghyson ledled Cymru. Mae'n rhaid i'r ffocws ar eu hanghenion gael ei gryfhau ac mae'n rhaid iddo fod yn gyson.

Pwynt dysgu o ran ymarfer a maes i'w wella:

- dylai awdurdodau lleol adolygu'r cymorth sydd ar gael i frodyr a chwiorydd plant anabl gyda'r bwriad o nodi unrhyw fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir ac unrhyw anghenion nas diwallwyd. Dylai'r wybodaeth hon lywio strategaethau comisiynu

Canfyddiad allweddol 10: Taliadau uniongyrchol: Rhaid i'r cynnig o daliadau uniongyrchol gael ei gryfhau a'i roi fel opsiwn hyfyw ar sail gwybodaeth i blant anabl a'u rhieni/gofalwyr

'Rhaid i awdurdod lleol ddatblygu ei gynllun taliadau uniongyrchol fel y bydd yn gallu ymateb i atebion a chanlyniadau a bod yn fwy perthnasol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.'
Cod Ymarfer Rhan 4 (Deddf 2014)

Mae taliadau uniongyrchol yn galluogi pobl i brynu gwasanaethau mewn ffordd sy'n addas iddynt, neu gyflogi cynorthwydd personol. Gall taliadau uniongyrchol gynnig mwy o hyblygrwydd a bwriedir iddynt roi mwy o ddewis, rheolaeth ac annibyniaeth i bobl. Gwelsom lawer o enghreifftiau o awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth am daliadau uniongyrchol ac o daliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio'n greadigol gan blant anabl a'u rhieni/gofalwyr fel modd i gyflawni canlyniadau llesiant personol.

Enghraifft o ymarfer:
Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gwelsom sut roedd taliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio i helpu plentyn anabl i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned. Dywedwyd wrthym fod y cynorthwydd personol yn fodel rôl gwych i'r plentyn a sut roedd cymryd rhan yn y gweithgareddau yn y gymuned wedi rhoi hwb i hunan-barch, llesiant a rhyngweithio cymdeithasol y plentyn.

Beth ddywedodd rhieni/gofalwyr wrthym:

“Erbyn hyn, rwy'n cael 3 awr yr wythnos er mwyn treulio rywfaint o amser gyda fy merch ond dwi ddim wedi llwyddo i recriwtio unrhyw un i roi'r cymorth hwn.”

“Mae'n dibynnu'n fawr iawn ar argaeledd cyflogeion taliadau uniongyrchol a'u hyblygrwydd. Mae'r cymorth yn methu os na allent weithio.”

Nodwyd gennym, er bod taliadau uniongyrchol yn cynnig hyblygrwydd o ran gofal a chymorth a bod llawer o blant anabl a'u rhieni/gofalwyr yn amlwg yn eu gwerthfawrogi, fod rhai wedi sôn wrthym am yr anawsterau a rhwystredigaethau mawr iawn roeddent yn eu hwynebu i recriwtio cynorthwywyr personol medrus i gyflawni'r oriau o gymorth a nodwyd yn eu cytundeb taliadau uniongyrchol. Clywsom hefyd fod prinder cynorthwywyr personol sy'n siarad Cymraeg. Nid oeddem yn hyderus bob amser fod teuluoedd yn cael cynnig opsiynau eraill ar gyfer cymorth, ochr yn ochr â thaliadau uniongyrchol.

Pwyntiau dysgu o ran ymarfer a meysydd i'w gwella:

- mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn cael eu hystyried yn rhan annatod o'r broses asesu a chynllunio gofal, ac yn ffordd bwysig o ddiwallu anghenion plentyn anabl a/neu angen rhieni/gofalwyr am gymorth, lle y bo hynny'n briodol
- rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o wasanaethau a dewis o wasanaethau i blant anabl er mwyn sicrhau bod y penderfyniad i dderbyn taliadau uniongyrchol yn opsiwn cadarnhaol a hyfyw i gyflawni canlyniadau a nodwyd yn hytrach nag opsiwn 'pan fetho popeth arall' oherwydd rhestrau aros neu fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir
- lle y defnyddir taliadau uniongyrchol, dylid trafod trefniadau wrth gefn â'r plentyn anabl a'i rieni/gofalwyr ac ystyried trefniadau gofal a chymorth amgen rhag ofn y bydd eu hangen mewn argyfwng

Canfyddiad allweddol 11: Plant anabl â phrofiad o ofal: Mae opsiynau o ran lleoliadau a chynllunio llwybr ar gyfer plant anabl sydd â phrofiad o ofal yn faes blaenoriaeth i'w wella

Mae Deddf 2014 yn gosod dyletswyddau clir ar unigolion ac awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a phlant a phobl ifanc sy'n cael eu lletya. Cod Ymarfer Rhan 6 (Deddf 2014)

Bu cynnydd yn nifer y plant yng ngofal yr awdurdodau lleol. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 6,935 o blant yng Nghymru yng ngofal yr awdurdod lleol, gyda 620 o'r plant hyn yn blant anabl. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu o 595 yn 2019.¹³

Mae lleihau'n ddiogel nifer y plant yn eu gofal, gan gynnwys plant anabl, yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi/wrthi'n adolygu'r systemau sydd ar waith i helpu plant (gan gynnwys plant anabl) i barhau i fyw gyda'u teuluoedd, lle bynnag y bo modd.

Nododd y wybodaeth a gasglwyd drwy hunanwerthusiadau awdurdodau lleol, fod tua thraean o'r plant anabl yng ngofal yr awdurdod lleol mewn lleoliadau y tu allan i ardal eu cartref. Hefyd, roedd 42% yn byw gyda gofalcwyr maeth, roedd 22% yn byw gyda gofalcwyr sy'n berthnasau¹⁴ ac roedd 5% o dan warcheidiaeth rhieni. Mae cyfran y plant nad ydynt yn anabl sy'n cael eu gosod o dan warcheidiaeth rhieni dipyn yn uwch o gymharu â lleoliadau ar gyfer plant anabl, sef 17% o gymharu â 5%. Nid oedd yr adolygiad yn cynnwys dadansoddiad o'r rhesymau dros hyn. Rydym yn argymhell y dylai awdurdodau lleol goladu a dadansoddi'r wybodaeth a chymryd camau i sicrhau, lle y bo modd, y caiff plant anabl gyfle

cyfartal i aros o dan warcheidiaeth eu rhieni a byw yn eu cymuned.

Nododd hunanwerthusiadau awdurdodau lleol hefyd fod cyfran uwch o blant anabl yn cael eu lleoli mewn gofal preswyl/ ysgolion arbennig a lleoliadau eraill (megis byw â chymorth) o'u cymharu â phlant nad ydynt yn anabl. Mae rhai o'r lleoliadau hyn y tu allan i ardal yr awdurdod lleol lle mae'r teulu yn byw oherwydd prinder darpariaeth arbenigol yn lleol i ddiwallu anghenion cymhleth rhai plant anabl. Gall hyd yn oed pellteroedd cymharol fach o'r cartref teuluol effeithio ar gyswllt plentyn â theulu a ffrindiau a gall olygu newid ysgol.

Ceir enghreifftiau o blant anabl sy'n derbyn gofal yn cael eu rhoi mewn lleoliadau heb eu cofrestru am nad oedd awdurdodau lleol yn gallu dod o hyd i leoliadau cofrestredig a allai ddiwallu anghenion y plentyn. Mae sicrhau digon o leoliadau yn faes y mae llawer o awdurdodau lleol wedi ei nodi fel un angen ei wella. Gwelsom fod rhai awdurdodau lleol wedi cymryd camau i geisio mynd i'r afael â'r broblem, gan gynnwys ystyried a datblygu gwasanaethau lleol, lle y gofelir am blant anabl yn eu hardal awdurdod lleol eu hunain, yn agos i'w ffrindiau a'u teuluoedd.

¹³ Atodiadau - ffigur 2. Ffynhonnell: Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a chymorth 2020 Llywodraeth Cymru. Casglodd y Cyfrifiad gofnodion unigol ar bob plentyn a oedd yn derbyn gofal a chymorth, gan gynnwys y rhai a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, yr oedd ganddo achos agored ag awdurdod lleol ar 31 Mawrth a oedd wedi bod ar agor am y tri mis rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth.

¹⁴ Mae gofal gan berthynas yn golygu bod perthynas neu oedolyn arall y mae'r plentyn yn ei adnabod yn gofalu amdano. Mae adran 81 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'r ffyrdd o letya a chynnal plant sy'n derbyn gofal.

Enghraifft o ymarfer:
Yng Nghyngor Sir Ceredigion, gwelsom fod yr awdurdod lleol yn canolbwyntio ar leihau nifer y plant a phobl ifanc anabl a oedd yn cael lleoliadau y tu allan i'r sir. Mae menter Camu Ymlaen y Cyngor i bobl ifanc 18-25 oed yn enghraifft o wasanaethau cymdeithasol, tai ac addysg yn gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu angen a nodwyd yn glir i bobl ifanc anabl sydd ag anghenion cymhleth gael gwasanaethau yn eu cymuned leol. Roedd nodau'r fenter yn cynnwys cynnig cyfleoedd i bobl anabl ifanc barhau i fyw yn eu cymunedau a chael eu haddysg yn lleol, drwy ddysgu personol yn seiliedig ar y cwricwlwm, gan eu paratoi ar gyfer byw'n annibynnol a chyflogaeth yn y dyfodol. Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Gwelsom rai enghreifftiau da o blant anabl â phrofiad o ofal yn cael digon o gymorth gan eu gweithiwr cymdeithasol ynghyd â goruchwyliaeth ddigonol o'r lleoliad ac ansawdd y berthynas â'r rhai a oedd yn rhoi gofal. Gwelsom hefyd rai enghreifftiau da o swyddogion adolygu annibynnol yn ymgynghori â phlant anabl. Fodd bynnag, nid oedd yr ymarfer hwn yn gyson, oherwydd gwelsom rai enghreifftiau o blant â phrofiad o ofal nad oeddent yn cael ymweliadau o fewn yr amserlenni statudol a dywedodd rhai swyddogion adolygu annibynnol wrthym fod lle i wella o ran y ffordd roeddent yn ymgynghori â phlant anabl â phrofiad o ofal cyn y cyfarfodydd adolygu er mwyn sicrhau bod eu barn yn ganolog i benderfyniadau.

Gall y cyfnod trosglwyddo pan fydd pobl anabl ifanc â phrofiad o ofal yn dechrau dod yn annibynnol a'r cyfnod yn union ar ôl gadael gofal achosi heriau sylweddol i'w llesiant emosiynol. Dylai gwaith paratoi ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal gynnwys helpu'r rhai sy'n gadael gofal i ddatblygu a chynnal cydberthnasau â phobl a fydd yn gallu parhau i'w cefnogi ar ôl iddynt adael gofal. Mae'n rhaid i'r broses asesu a chynllunio llwybr i blentyn sy'n derbyn gofal gynnwys dadansoddiad cytbwys yn seiliedig ar dystiolaeth o angen parhaus y person ifanc am lety a gofal a chymorth, gan gynnwys a ddylai barhau i dderbyn gofal.

Gwelsom gofnodion achos lle roedd gan bobl ifanc gynlluniau llwybr ar waith a chynghorwyr personol dynodedig. Nid oedd cynlluniau llwybr bob amser yn cynnwys canlyniadau ac nid oedd yn glir sut y câi cynnydd ei fesur. Roedd rhywfaint o waith cynllunio llwybr wedi cael ei wneud gan ddisgwyl y byddai pobl ifanc yn gadael gofal a'i fapio pan oeddent yn 14 neu'n 15 oed mewn rhai achosion. Fodd bynnag, gwelsom hefyd dystiolaeth o bobl ifanc â phrofiad o ofal a oedd yn troi'n 18 oed yn fuan, lle nad oedd cynlluniau llwybr ar waith ac nad oedd asesiadau ar gyfer cymhwysra i gael gwasanaethau oedolion wedi'u cynnal eto. Nid yw'r ansicrwydd ynghylch trefniadau ar gyfer pobl ifanc yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol o ran eu llesiant a gall wneud i bobl ifanc deimlo'n fwy pryderus.

Gwelsom anghysondeb ledled Cymru o ran trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod'¹⁵ ar gyfer pobl ifanc anabl. Yn debyg i'w cyfoedion nad ydynt yn anabl, mae'n debygol y bydd pobl ifanc anabl yn cael budd o aros mewn amgylchedd teuluol sefydlog a magwrus hyd at 21 oed neu hyd at 25 oed os ydynt yn cwblhau rhaglen addysg neu hyfforddiant y cytunwyd arni. Gall hyn roi cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau ac ennyn hyder a'u helpu i drosglwyddo yn y dyfodol.

Ar y cyfan, gwelsom fod angen gwella'r opsiynau ar gyfer lleoliadau i bobl anabl ifanc â phrofiad o ofal. Mae angen cryfhau prosesau cynllunio llwybr er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf 2014 a'r codau ymarfer perthnasol.


Pwyntiau dysgu o ran ymarfer a meysydd i'w gwella:

- rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y trefniadau i oruchwylio lleoliadau plant anabl yn foddhaol ac yn bodloni gofynion statudol
- mae prinder lleoliadau preswyl lleol priodol yn achosi problem fawr i blant ag anghenion cymhleth. Mae hwn yn faes blaenoriaeth i'w wella i awdurdodau lleol
- rhaid i brosesau asesu a chynllunio llwybr gydymffurfio â gofynion Deddf 2014 a'r codau ymarfer perthnasol
- mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod opsiynau 'Pan Fydda i'n Barod' ar gael i blant anabl, a helpu ymarferwyr i ddeall eu rolau yn well o ran yr opsiwn hwn

¹⁵ Sefydlwyd y cynllun Pan Fydda i'n Barod gan Lywodraeth Cymru yn 2015 i baratoi awdurdodau lleol ar gyfer eu dyletswyddau cyfreithiol newydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O dan y cynllun, gall pobl ifanc mewn gofal maeth barhau i fyw gyda'u gofalyr maeth ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed.

Canfyddiadau Allweddol

Partneriaeth ac Integreiddio



Dylai awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd a gydag amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys Byrddau Iechyd Lleol, i ddatblygu a darparu'r ystod a'r lefel ofynnol o wasanaethau ataliol... gall awdurdodau lleol ddewis darparu rhai mathau o wasanaethau ataliol eu hunain, efallai y bydd gwasanaethau eraill yn fwy effeithiol o gael eu darparu neu eu trefnu mewn partneriaeth â phartneriaid lleol eraill, gan gynnwys y trydydd sector. Cod Ymarfer Rhan 2 (Deddf 2014)

Mae Deddf 2014 yn hyrwyddo'r broses o integreiddio'r sector iechyd a'r sector gofal hyd y gellir er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell. Mae Cymru lachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol¹⁶ a baratowyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol wrth wraidd y gwaith o ddatblygu modelau gwerth uchel o iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Sut y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am ddod ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr yn y trydydd sector ynghyd, a sut y byddant yn ymgymryd â rôl goruchwylio a chydlynu gadarn.

Beth ddywedodd rhieni/gofalwyr wrthym am weithio mewn partneriaeth:

“Mae'n ymddangos nad yw'r adrannau yn siarad â'u gilydd o gwbl.”

“Bu rhaid gofyn droeon i'w cael nhw i ddod ynghyd a gwrando ar eu gilydd.”

“Rydym yn teimlo ein bod wedi ein hintegreiddio'n dda â'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'n mab.”

“Mae wedi bod yn anodd iawn trefnu cyfarfod amlddisgyblaethol. Mae'r gweithiwr cymdeithasol wedi ceisio e-bostio pob un o'r gweithwyr proffesiynol ond heb gael ateb gan lawer ohonynt.”

Gwelsom amrywiaeth o strwythurau timau a gwasanaethau mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru, sy'n cefnogi plant anabl a'u teuluoedd. Lle roedd timau/ymarferwyr plant anabl wedi'u hintegreiddio neu wedi'u cydleoli, roedd ymarferwyr a phartneriaid yn ystyried bod y trefniadau hyn yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, gyda manteision clir wedi'u nodi i blant anabl a'u teuluoedd.

¹⁶ Mae 'Cymru lachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn nodi gweledigaeth hirdymor o 'ddull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol' yn y dyfodol, a fydd yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant ac ar atal salwch.

Gwelsom amrywiaeth o strwythurau timau a gwasanaethau mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru, sy'n cefnogi plant anabl a'u teuluoedd. Lle roedd timau/ymarferwyr plant anabl wedi'u hintegreiddio neu wedi'u cydleoli, roedd ymarferwyr a phartneriaid yn ystyried bod y trefniadau hyn yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, gyda manteision clir wedi'u nodi i blant anabl a'u teuluoedd.

Enghraifft o ymarfer:

Yng Nghyngor Gwynedd, gwelsom sut roedd tîm amlddisgyblaethol yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd. Roedd yr enghreifftiau o'r cymorth a oedd yn cael ei roi yn cynnwys darparu cymhorthion ac addasiadau, cymorth emosiynol, a chyngor ar reoli ymddygiad gan seicolegydd a oedd yn aelod o'r tîm amlddisgyblaethol.

Roedd gwaith amlasiantaethol, ar ei fwyaf effeithiol, yn seiliedig ar ymddiriedaeth a chydberthnasau gwaith proffesiynol da ac adnoddau sefydliadol i gefnogi'r gwaith. Dywedodd ymarferwyr wrthym fod cydberthnasau proffesiynol a chyfathrebu yn bwysig o ran sicrhau bod gwaith amlasiantaethol yn llwyddiannus, a hefyd ymrwymiad strategol a sefydliadol i weithio amlasiantaethol. Ystyriwyd bod ansawdd ymarfer, adnoddau digonol a gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol yn bwysig er mwyn cyflawni canlyniadau da i blant anabl a'u teuluoedd.

Nodwyd gennym fod cymorth amlasiantaethol wedi'i gydlynu'n dda ar gam cynnar yn bwysig o ran mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a oedd yn dod i'r amlwg ar y dechau a hyrwyddo llesiant pobl.

Enghreifftiau o arfer:

Yng Nghyngor Sir Penfro, gwelsom fod y tîm plant anabl wedi'i integreiddio â'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol a thai. Roedd aelodau'r tîm yn gadarnhaol ynglŷn ag integreiddio o'r fath a gwnaethant sôn am fuddiannau sylweddol gweithio gyda thimau eraill yn y gyfarwyddiaeth i ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig, gan wella canlyniadau diogelwch a llesiant i bobl.

Yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, gwelsom bwyslais cadarn ar ddisgyblaethau proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd; er enghraifft, roedd seicolegydd addysgol yn rhan o'r Tîm Anabled 0-25. Roedd y tîm yn cynnwys deiliaid swyddi arbenigol eraill a oedd yn cynnig gwybodaeth arbenigol.

Gwelsom sut roedd awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn gwneud ymdrechion i sicrhau dull strategol mwy cydgysylltiedig er budd plant anabl a'u teuluoedd. Gwelwyd rhai enghreifftiau o blant anabl ag anghenion cymhleth iawn, lle nad oedd fawr ddim tystiolaeth o gydweithio na chyfeiriadau at weithwyr iechyd proffesiynol yn cymryd rhan sylweddol yn eu gofal, lle y byddwn wedi disgwyl gweld hyn ar waith. Gwelsom enghreifftiau hefyd lle y byddai gofal a chymorth a ariennir ar y cyd wedi bod yn fuddiol i blant anabl.

Mae cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth yn gofyn am brosesau comisiynu integredig a gwasanaethau sy'n cydweithio â' gilydd, sy'n hyblyg ac yn ddigon cadarn i ddiwallu anghenion parhaus a newydd mewn ffordd gynaliadwy.

Gwelwyd llawer o enghreifftiau cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth yn effeithiol a chydweithio rhanbarthol, yn enwedig yn ystod y pandemig, rhwng awdurdodau lleol, iechyd, addysg, tai a darparwyr gofal. Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o ddull amlasiantaethol o reoli risgiau, gyda'r awdurdodau lleol a'u partneriaid yn rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod llesiant plant anabl yn cael ei hyrwyddo a'i ddiogelu.

Roedd y canlyniadau gorau i blant anabl a'u teuluoedd yn cael eu cyflawni pan oedd partneriaid yn gweithio drwy gyd-gynhyrchu i ddod o hyd i atebion a oedd â ffocws ar bobl a'u canlyniadau a darparu gwasanaethau di-dor a chynaliadwy.

Enghraifft o ymarfer: Mae panel Gofal Cymhleth Rhanbarthol Gwent yn trafod achosion plant lle mae materion sy'n achosi anghydfod/rhwysterau i weithio mewn tîm amlasiantaethol wedi codi naill ai mewn perthynas â darparu gwasanaethau, ymarfer neu gyfraniadau ariannol. Mae'r panel yn ceisio sicrhau ymarfer mwy cyson a chytundebau cyllido ar lefel ranbarthol er mwyn i blant ag anghenion cymhleth a'u teuluoedd gael cymorth cydgysylltiedig a di-dor. Drwy'r Bwrdd Partneriaeth, datblygwyd llwybr gwneud penderfyniadau rhanbarthol i gefnogi gweithio mewn partneriaeth i blant ag anghenion cymhleth ac anabledau.

Ar y cyfan, yn ystod y pandemig rydym wedi gweld partneriaethau yn datblygu ac yn cryfhau. Bydd angen rhagor o waith i sicrhau cymaint o weithio mewn partneriaeth â phosibl ar bob lefel.

Pwynt dysgu o ran ymarfer a maes i'w wella:

- o ystyried yr heriau disgwylidig sy'n wynebu awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr gwasanaethau, mae'n hollbwysig eu bod yn parhau i wneud pob ymdrech i sicrhau dull gweithredu strategol mwy cydgysylltiedig er budd plant anabl. Mae hyn yn cynnwys mwy o gydweithio a mwy o drefniadau cydgomisiynu, sy'n canolbwyntio ar bobl a chanlyniadau

Canfyddiad allweddol 13: Trosglwyddo: Rhaid i'r trefniadau trosglwyddo i blant anabl gael eu cryfhau

'Mae gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus ag urddas a, hyd y gellir, annibyniaeth a chwarae rhan weithredol yn y gymuned.' Erthygl 23 CCUHP

Beth ddywedodd pobl wrthym am drefniadau trosglwyddo i blant anabl:

"Mae ein merch yn 18 oed ac mae un flwyddyn arall yn yr ysgol ganddi. O ran y camau nesaf a throsglwyddo i addysg bellach neu fyw'n annibynnol, ychydig iawn o fewnbwn rydyn ni wedi'i gael. Ni sydd wedi dechrau pob cam." (*Rhiant/Gofalwr*)

"Mae yna deimlad bod y broses drosglwyddo yn rhywbeth sy'n cael ei wneud i'r person ifanc yn hytrach na gyda'r person ifanc. Mae angen gwybodaeth yn gynt ac eglurder ynglŷn â beth fydd yn newid a phwy fydd yn gwneud hynny." (*Gweithiwr proffesiynol*)

"Mae gen i blentyn sy'n mynd o fod yn blentyn i fod yn oedolyn. Dim gweithiwr cymdeithasol oherwydd salwch staff a'r cyfnod cyfyngiadau, yn amlwg. Mae angen mwy o flaengynllunio i rieni a gofalwyr a gwell cymorth. Mae llawer o rieni a gofalwyr yn poeni am beth fydd yn digwydd nesaf." (*Rhiant/Gofalwr*)

Ar y cyfan, gwelsom drefniadau trosglwyddo amrywiol ar waith ledled Cymru. Mewn rhai awdurdodau lleol, roedd pwysau ar dimau gofal a chymorth oedolion weithiau wedi arwain at weithwyr cymdeithasol oedolion yn cael eu dyrannu'n hwyr i bobl ifanc a oedd yn trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Roedd hyn yn golygu bod llai o amser ar gyfer cynllunio a meithrin cydberthynas â'r bobl anabl ifanc a'u teuluoedd. Gwelsom fod pwysau cyllido, gallu ac adnoddau'r gweithlu a diffyg gweledigaeth gyffredin ymhlith y rhai dan sylw yn rhwystro proses drosglwyddo effeithiol.

Roedd angen rhai gwelliannau o ran trefniadau trosglwyddo ym maes iechyd. Er enghraifft, roedd y broses o drosglwyddo gofal a chymorth i seiciatryddion ar gyfer pobl ifanc â namau gwybyddol difrifol yn gweithio'n well na'r broses o drosglwyddo i ymarferwyr cyffredinol (meddygon teulu) i bobl ifanc â namau gwybyddol cymedrol. Roedd systemau adolygu ar waith i gydgyfylltu'r broses o drosglwyddo o fewnbynnau gan weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol i bobl ifanc â namau corfforol difrifol neu namau lluosog. Roedd rhai rheolwyr iechyd y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod y cyfnod trosglwyddo ym maes iechyd yn cael ei reoli'n well i bobl ifanc ag anabledd dysgu nag i blant anabl eraill. Dywedwyd wrthym fod cyfnodau trosglwyddo i bobl ifanc ag anableddau llai cymhleth weithiau'n arwain at fwch yn y ddarpariaeth ac y gellid gwneud mwy i atal argyfyngau rhag datblygu ar gyfer yr oedolion ifanc hyn.

Gwelsom enghreifftiau o ymwneud cynorthwywyr personol â phobl ifanc anabl â phrofiad o ofal. Dywedwyd wrthym fod cynorthwywyr personol yn llai hyderus neu'n llai clir ynghylch eu rôl gyda phlant ifanc anabl. Dylai uwch-reolwyr nodi disgwyliadau clir i gynorthwywyr personol yn unol â'u cod ymarfer perthnasol a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddiant.

Nid oedd y plant a oedd yn gadael ysgolion preswyl a/neu'n symud i drefniadau byw i oedolion, yn cael digon o rybudd ymlaen llaw am y cynlluniau. Mae hyn yn golygu nad oes modd defnyddio'r dulliau cyd-gynhyrchu ar gyfer pobl ifanc anabl a ddisgwylir yn Neddf 2014.

Dywedodd rhai rhieni/gofalwyr wrthym y gallai proses drosglwyddo eu plentyn rhwng ysgolion, i wasanaethau oedolion, i fyw'n annibynnol neu fyw â chymorth fod wedi cael ei chynllunio'n well. O'r rhieni/gofalwyr a arolygwyd, roedd tua 44% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn yn teimlo bod gweithwyr proffesiynol o wasanaethau cymdeithasol, addysg, iechyd ac asiantaethau eraill wedi gweithio 'yn dda' neu 'yn dda iawn' gyda'i gilydd a gyda'r rhiant/gofalwr i gynllunio ar gyfer newidiadau/cyfnod trosglwyddo mewn perthynas â'u plentyn/plant anabl.

Roedd yr enghreifftiau gorau o drosglwyddo yn seiliedig ar gyfathrebu effeithiol, ymarfer a oedd yn seiliedig ar gryfderau, cydberthnasau a phartneriaethau da, gwaith cynllunio effeithiol a oedd yn cynnwys y plentyn anabl, ei rieni/gofalwyr ac eraill, lle y bo'n gymwys, er enghraifft darparwyr gwasanaethau, addysg, iechyd a thai.

Enghraifft o ymarfer: Roedd Cyngor Caerdydd wedi gwneud cryn dipyn o gynnydd i blant a phobl ifanc anabl ar ôl datblygu protocol rhanbarthol ar y cyd a'r buddsoddiad ychwanegol gan y Gronfa Gofal Integredig i gefnogi'r tîm trosglwyddo. Roedd cyfathrebu a chydweithio rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion ac asiantaethau eraill wedi gwella'n sylweddol ar ôl rhoi proses panel amlasiantaethol ar gyfer gwaith cynllunio ar waith. Drwy arweinyddiaeth gwasanaethau addysg ochr yn ochr â gwasanaethau cymdeithasol bu modd cynllunio cyfnodau trosglwyddo ar y cyd, a chysoni'r ddarpariaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'r fforwm cynllunio amlasiantaethol hefyd wedi bod yn fodd i feysydd gwasanaeth werthfawrogi'n well rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n rhan o'r broses o gefnogi cyfnod drosglwyddo person ifanc.

Roedd rhai awdurdodau lleol wedi datblygu strategaethau o ran cefnogi opsiynau llety, addysg, cyflogaeth a hyfforddiant i bobl anabl ifanc. Gwelsom enghreifftiau o bobl ifanc anabl yn cael cyfleoedd i ymgymryd ag ystod o ddarpariaeth addysg bellach, cyflogaeth a gweithgareddau cymdeithasol er mwyn dilyn eu diddordebau a bod mor annibynnol â phosibl. Atebodd tua 39% o rieni/gofalwyr a ymatebodd i'r datganiad 'Rwy'n teimlo fy mod yn cael cymorth i helpu ein plentyn anabl fod mor annibynnol â phosibl,' naill ai 'cytuno' neu 'cytuno'n gryf'.

Pwyntiau dysgu o ran ymarfer a meysydd i'w gwella:

- rhaid i bobl ifanc anabl gymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio ar gyfer eu dyfodol a chael gwybodaeth mewn modd amserol
- mae angen gwelliannau er mwyn sicrhau bod y gwaith o gynllunio cyfnodau trosglwyddo yng Nghymru yn cael ei wneud mewn modd amserol a thrwy broses gydweithredol, sy'n paratoi plant anabl i drosglwyddo i fyd oedolion, gan gynnwys datblygu sgiliau
- mae angen cryfhau opsiynau a mynediad i blant anabl o ran llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a sicrhau bod cymaint o opsiynau â phosibl ar gael

Mae'r Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi proses deg, droloyw ac amserol o asesu, penderfynu a chytuno ar becynnau pwrpasol o ofal parhaus i'r plant a'r bobl ifanc hynny o dan 18 oed sydd ag anghenion gofal parhaus nad oes modd eu diwallu drwy wasanaethau cyffredinol ac arbenigol presennol yn unig. Mae'r canllawiau wedi cael eu llunio at ddefnydd pawb sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau gofal parhaus plant mewn byrddau iechyd lleol (BILlau) ac awdurdodau lleol a'u partneriaid. Maent yn disgrifio'r broses ryngasiantaethol, a arweinir gan BILlau, y dylai pob sefydliad ei rhoi ar waith wrth asesu anghenion a chyflwyno pecynnau o ofal parhaus i'r plant a'r bobl ifanc hynny y mae ei angen arnynt am na ellir diwallu eu hanghenion drwy wasanaethau cyffredinol neu arbenigol presennol yn unig.

O'n canfyddiadau ynglŷn â chynlluniau gofal a chymorth ar gyfer plant anabl ag anghenion mwy cymhleth a chyfweliadau ag uwch-reolwyr o awdurdodau lleol a byrddau iechyd, nid oedd dealltwriaeth gyffredin bob amser o'u cyfrifoldebau ariannol am blant sy'n cael gofal parhaus.

Bydd defnyddio'r Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn helpu asiantaethau i sicrhau'r canlynol:


- mae plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn chwarae rhan weithredol ym mhroses gofal parhaus
- mae proses gofal parhaus yn gydgyssylltiedig ac yn gyson rhwng sefydliadau
- mae ymarferwyr iechyd, addysg a gofal cymdeithasol (gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn y sector annibynnol a'r trydydd sector) a defnyddwyr gwasanaethau, yn deall proses gofal parhaus ac yn ei defnyddio'n effeithiol

Pwynt dysgu o ran ymarfer a maes i'w wella:

- mae angen rhagor o waith i godi ymwybyddiaeth o'r Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc, eu rhoi ar waith a'u hymgorffori – Ionawr 2020

Canfyddiadau Allweddol

Atal



Canfyddiad allweddol 15: Ymyrraeth gynnar: Rhaid cryfhau cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar amserol i blant anabl a'u teuluoedd

'Mae atal yn rhan annatod o raglen newid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar er mwyn gwneud gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy i'r dyfodol... Mae'n hollbwysig nad yw gwasanaethau gofal a chymorth yn aros tan i bobl fynd i argyfwng cyn ymateb.' Cod Ymarfer Rhan 2 (Deddf 2014)

Mae Deddf 2014 yn atgyfnerthu egwyddor cefnogi teuluoedd i ofalu am blant, gan gadw teuluoedd ynghyd mewn amgylchedd diogel, cefnogol a sefydlog. Mae'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar i atal anghenion rhag mynd yn gritigol.

Beth ddywedodd rhieni/gofalwyr wrthym am ymyrraeth gynnar:

"Mae'n iawn unwaith y byddwch yn y system – dod yn rhan o'r system yw'r broblem"

"Maen nhw'n dweud wrtha i o hyd nad yw fy mhlentyn yn bodloni eu meini prawf. Dwi ddim yn gwybod pwy arall all fy helpu."

Drwy ddarparu gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar gellir lleihau'r risg y bydd anghenion a risgiau yn dwysáu a gwella canlyniadau personol. Drwy nodi angen pan fydd yn codi gyntaf a rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol lle y bo angen hynny, gellir atal anghenion rhag dwysáu, a all, yn aml, fod yn niweidiol o ran llesiant pobl, neu ohirio hynny.

Enghraifft o ymarfer:

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, gwelsom fod y Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol sy'n rhan o'r gwasanaeth cymorth cynnar Teuluoedd Gwydn, yn wasanaeth effeithiol a gwerthfawr a oedd yn canolbwyntio ar gryfderau teuluoedd a chyflawni canlyniadau personol. Roedd plant anabl a oedd yn cael 'cymorth cynnar' gan y Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol yn cael budd o gynlluniau clir a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau unigol ac yn adlewyrchu cryfderau presennol y teulu. Roedd yr ymarferwyr a oedd yn gweithio yn y Gwasanaeth Plant ag Anghenion Arbennig wedi cael amrywiaeth eang o hyfforddiant ar dulliau ymddygiadol a dulliau therapiwtig. Roedd y data a ddarparwyd i ni yn nodi bod 95% o'r rhieni yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi'n fwy annibynnol ar ôl bod yn rhan o'r Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol.

Gwelsom amrywiaeth o wasanaethau ataliol ar gyfer plant anabl ledled Cymru. Ond roedd rhai rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn sôn am 'loteri cod post' mewn perthynas â gwasanaethau a mynediad at wasanaethau. Disgrifiodd rhai rhieni/gofalwyr sawl ymgais aflwyddiannus i gael cymorth. Disgrifiodd llawer o'r rhieni/gofalwyr ddryswch neu gamddealltwriaeth ynglŷn â'r meini prawf cymhwystra i gael gwasanaethau statudol ac nid oeddent yn deall y rhesymau pam nad oedd eu plentyn/plant anabl yn bodloni'r meini prawf cymhwystra i gael gwasanaethau statudol.

Gwelsom fod nifer o awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar gryfhau gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar ac yn adolygu modelau ymarfer/darpariaeth gwasanaethau.

Pwyntiau dysgu o ran ymarfer a meysydd i'w gwella:

- mae angen cryfhau cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar amserol i blant anabl a'u teuluoedd
- dylid darparu gwybodaeth glir a hygyrch am y meini prawf cymhwystra i gael gwasanaethau statudol

Mae adran 15 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu neu drefnu i ddarparu ystod a lefel o wasanaethau a fydd yn ei farn ef yn cyfrannu at atal neu oedi datblygiad anghenion pobl am ofal a chymorth, hyrwyddo magwraeth plant gan eu teuluoedd, pan fo hynny'n gyson â llesiant y plant a lleihau'r anghenion am ofal a chymorth i bobl y mae arnynt anghenion o'r fath.

Beth ddywedodd rhieni/gofalwyr wrthym am ddarpariaeth gwasanaethau i blant anabl:

“Er bod ein gweithiwr allweddol yn gwneud ymdrech ar ein rhan, mae ei ddwylo wedi’u clymu i ryw raddau oherwydd prinder adnoddau.”

“Accessing support for our family is very difficult. Services are difficult to find. Information is sparse, spread out and not readily accessible. Services lack a coherent or joined up model.”

Ar y cyfan, roedd rhieni/gofalwyr a oedd yn cael cymorth yn gwerthfawrogi'r cymorth roeddent hwy a'u plentyn/plant anabl yn ei gael. Fodd bynnag, roedd llawer yn teimlo y byddai gwasanaethau/cymorth ychwanegol yn fuddiol iddynt hwy a'u plentyn/plant anabl. O'r rhieni/gofalwyr a arolygwyd, dywedodd mwyafrif wrthym eu bod wedi gofyn i wasanaethau cymdeithasol am gymorth, er enghraifft gwasanaeth eistedd, seibiannau byr, gan gynnwys seibiannau dros nos, er mwyn iddynt gael seibiant o'u rôl fel gofalwyr. Nid oedd pob un ohonynt wedi cael y cymorth roeddent wedi gofyn amdano na'r cymorth roedd ei angen arnynt yn eu barn nhw.

Roedd yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i blant anabl yn amrywio ledled Cymru. Soniodd pobl wrthym am fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir ac am restrau aros ar gyfer rhai gwasanaethau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: gwasanaethau seibiannau byr (gan gynnwys seibiannau byr dros nos/preswyl), cymorth ymddygiadol a gwasanaethau therapi galwedigaethol. Cyn y pandemig, roedd bylchau mewn rhai o'r gwasanaethau a ddarparwyd, pwysau ar rai gwasanaethau a rhestrau aros ar gyfer rhai gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd. Mae ffactorau sy'n ymwneud â'r pandemig wedi peri i'r sefyllfa waethygu.

Clywsom am bwysau mewn gwasanaethau iechyd meddwl y glasoed a phlant. Clywsom hefyd am amseroedd aros hir i blant gael asesiad awtistiaeth a'r effaith fawr roedd hyn yn ei chael ar deuluoedd a oedd yn ceisio dod i ddeall eu plentyn a gwybod y ffordd orau o ofalu amdano a'i gefnogi.

Yn ystod y pandemig, bu cryn darfu ar wasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd. Caeodd rhai gwasanaethau megis 'gwasanaethau preswyl ar gyfer seibiannau byr' yn gyfan gwbl neu am gyfnodau o amser o ganlyniad i amgylchiadau lleol. Ymhlith y problemau y daethpwyd ar eu traws roedd

bylchau yn y gweithlu am amrywiol resymau, gan gynnwys prinder staff a'r cyfyngiadau a osodwyd. Roedd llawer o wasanaethau'n gweithredu'n wahanol. Cwtogwyd ar rai gwasanaethau a/neu fe'u cynigiwyd ar sail angen, risg a'r effaith ar blant anabl a'u teuluoedd.

Roedd arweinwyr ac uwch-reolwyr yn ymwybodol o fylchau yn y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu a phwysau ar wasanaethau. Gwelsom enghreifftiau o gamau a gymerwyd gan rai awdurdodau lleol i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth, er enghraifft drwy ddefnyddio cyllid i gyflogi seicolegydd, comisiynu cymorth ymddygiadol a gwasanaethau therapiwtig i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd. Fodd bynnag, yn aml iawn nid oedd digon o adnoddau i wasanaethau ateb y galw a diwallu anghenion, er enghraifft darpariaeth dros nos/preswyl ar gyfer seibiannau byr.

Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol yn cadw golwg ar restrau aros. Os bydd angen aros am wasanaethau, gall hynny gael effaith andwyol ar lesiant plant anabl a'u rhieni/gofalwyr a'u teuluoedd.

Pwyntiau dysgu o ran ymarfer a meysydd i'w gwella:

- dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd sicrhau eu bod yn adolygu'r rhai sy'n aros am wasanaeth yn rheolaidd, yn asesu risg, yn ystyried trefniadau interim ac yn trafod cynlluniau wrth gefn â theuluoedd ac yn cytuno arnynt
- rhaid i'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd i blant anabl a'u teuluoedd gael eu gwerthuso a rhaid iddynt gael eu cynllunio yn erbyn anghenion a ragwelir yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar ddull 'system gyfan' o ddarparu gwasanaethau

Canfyddiad allweddol 17: Ymgynghori: Mae angen cryfhau prosesau ymgynghori â phlant anabl a'u rhieni/gofalwyr

Gwelsom rai enghreifftiau o ymgynghori â phlant anabl a'u teuluoedd o ran datblygu a darparu gwasanaethau. Pan ofynnwyd iddynt a oedd eu hawdurdod lleol wedi ceisio eu barn ynglŷn â sut y gellid gwella gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd, atebodd tua 64.5% o'r rhieni a arolygwyd ac a ymatebodd i'r cwestiwn "na."

Pwynt dysgu o ran ymarfer a maes i'w wella:

- mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod barn plant anabl a'u teuluoedd yn cael ei cheisio'n rheolaidd a'i bwydo i mewn i'r systemau ar gyfer mapio anghenion nas diwallwyd, bylchau mewn gwasanaethau a'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau



'Rhaid i bartion gymryd camau effeithiol a phriodol, gan gynnwys drwy gymorth cymheiriaid, i alluogi pobl ag anableddau i fod yn annibynnol a parhau i fod mor annibynnol â phosibl, i feddu ar allu corfforol, meddyliol, cymdeithasol a galwedigaethol llawn, ac i gael eu cynnwys ac i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd.'

Erthygl 26 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Yn ystod y pandemig, roedd yn cymryd mwy o amser i ddarparu cymhorthion ac addasiadau am nifer o resymau.

Nodwyd gennym fod rhestrau aros ar gyfer therapi galwedigaethol mewn llawer o ardaloedd. Roedd awdurdodau lleol yn monitro rhestrau aros ac yn asesu risgiau.

Gwelsom rywfaint o dystiolaeth o'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol i gefnogi rhieni/gofalwyr, lleihau risg a hybu annibyniaeth plant/pobl ifanc anabl.

Enghraifft o ymarfer: Yng Nghgor Bwrdeistref Sirol Conwy, clywsom am y ffordd roedd technoleg gynorthwyol yn cael ei defnyddio i leihau risgiau i blentyn anabl. Roedd y defnydd o'r dechnoleg hefyd wedi arwain at ganlyniadau gwell i'r rhiant/gofalwr a ddywedodd fod y dechnoleg "wedi achub ei fywyd."

Pwyntiau dysgu o ran ymarfer a maes i'w wella:

- nid yw'r amseroedd aros ar gyfer therapi galwedigaethol, cymhorthion ac addasiadau yn unol â bwriadau Deddf 2014 a rhaid iddynt wella er mwyn cefnogi llesiant plant anabl a'u teuluoedd
- dylai awdurdodau lleol ystyried sut y gellir gwneud y defnydd gorau posibl o dechnoleg gynorthwyol i gefnogi llesiant plant anabl a'u helpu i fod mor annibynnol â phosibl

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu nwyddau a chyfleusterau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl fel nad ydynt o dan anfantais o'u cymharu â phobl nad ydynt yn anabl

Gwelsom fod y cyfleoedd yng Nghymru i blant anabl ymgymryd â gweithgareddau chwarae, a gweithgareddau cymdeithasol a hamdden cynhwysol yn amrywio.

Roedd profiad y plant y gwnaethom siarad â nhw yn amrywio o ran cael cyfle i ymgymryd â gweithgareddau cymdeithasol a hamdden y tu allan i'r ysgol. Ymhlith y gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw roedd marchogaeth, clybiau chwaraeon, y sgowtiaid a'r geidiaid, clybiau ieuenctid a grwpiau dawns a drama. O'r gweithgareddau hyn, roedd rhai yn gynhwysol ac roedd rhai yn weithgareddau a oedd wedi'u hanelu'n benodol at blant anabl. Ni nododd y plant y gwnaethom siarad â nhw a oeddent yn ffafrio'r naill yn fwy na'r llall. Roedd rhai a ymgwymerodd â gweithgareddau ar gyfer pobl anabl ifanc yn unig yn mwynhau bod yng nghwmni pobl a oedd yn debyg iddynt, lle roeddent yn teimlo bod eraill yn eu deall ond roeddent hefyd yn mwynhau bod mewn amgylcheddau mwy cynhwysol gydag amrywiaeth eang o bobl ifanc eraill. Rhoddwyd ychydig o enghreifftiau lle roedd pobl anabl ifanc yn sôn am gael eu 'gwthio o'r neilltu' mewn gweithgareddau cynhwysol neu am beidio â chael y cymorth roedd ei angen arnynt i gymryd rhan ar lefel debyg i'w cyfoedion nad oeddent yn anabl. Nododd y plant weithgareddau eraill yr hoffent fod yn rhan ohonynt nad oeddent yn hygyrch iddynt, yn eu barn nhw, am amrywiol resymau.

Ar y cyfan, dywedodd tua 35% o'r rhieni/gofalwyr a arolygwyd ac a ymatebodd eu bod yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod eu plentyn/plant yn cael cyfle i ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau y tu allan i'r cartref er mwyn cael hwyl a gwneud ffrindiau. Roedd rhai rhieni yn teimlo nad oedd digon o ofal plant, er enghraifft meithrinfeydd, cylchoedd chwarae a gwarchodwyr plant ar gael yn eu hardal ar gyfer eu plentyn/plant anabl.

Roedd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r model cymdeithasol o anabledde ac roeddent yn ymwybodol o'r rhwystrau i blant anabl a'u hawl i gael mynediad cyfartal.

Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o wasanaethau chwarae a chymunedol cynhwysol, yr oedd rhai ohonynt yn cael eu rhedeg gan sefydliadau yn y trydydd sector. Gwelsom ymdrechion awdurdodau lleol i ddatblygu cyfleoedd chwaraeon a hamdden cynhwysol i blant anabl.

Enghraifft o ymarfer: Roedd y Gwasanaeth Chwarae a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn darparu pecynnau cymorth chwarae a hamdden i fwy na 200 o blant yr oedd angen cymorth arnynt. Roedd hyn yn cynnwys plant ag amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys anghenion cymhleth. Drwy weithio amlasiantaethol, roedd pecynnau o gymorth wedi'i deilwra yn cael eu rhoi ar waith er mwyn i blant a phobl ifanc anabl gael manteisio ar y ddarpariaeth chwarae a hamdden yn eu cymuned a hyrwyddo eu hawl i chwarae. Drwy weithio mewn partneriaeth â theuluoedd, ysgolion, Timau Nyrsio Cymunedol a phartneriaid yn y trydydd sector, roedd y Gwasanaeth Chwarae yn gallu rhoi cymorth chwarae i blant anabl.

Pwyntiau dysgu o ran ymarfer a meysydd i'w gwella:

- mae angen gwella'r ddarpariaeth a'r amrywiaeth o ofal plant a gwasanaethau cymdeithasol a hamdden i blant a phobl ifanc anabl
- dylid ceisio barn plant anabl a'u teuluoedd i nodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a datblygu gwasanaethau/ adnoddau cymunedol cynhwysol i blant anabl

Casgliad

Nodwyd gennym fod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn dangos awydd ac ymrwymiad i helpu plant anabl a'u teuluoedd i gyflawni canlyniadau da. Bydd angen iddynt adeiladu ar yr awydd a'r ymrwymiad a fynegwyd ganddynt i ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau, sy'n gyson â gofynion Deddf 2014. Mae'n rhaid i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau fod wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yn wynebu heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen wrth ymateb i'r pandemig. Mae'r pandemig wedi cael effaith ar bob un ohonom, ond yn enwedig ar blant a phobl ifanc, pobl anabl, gofalwyr di-dâl a phobl hŷn. Mae'r pandemig yn parhau i wneud y rhwystrau presennol y mae pobl anabl eisoes yn eu hwynebu yn waeth, mae wedi amlygu problemau newydd ac wedi dangos lle mae angen i bethau newid yn gyflym ac y gall pethau newid yn gyflym i wella canlyniadau pobl. Er enghraifft, yn ystod y pandemig mae llawer o awdurdodau lleol wedi cyflymu eu prosesau er mwyn gwneud penderfyniadau mwy amserol.

Mae 'Fframwaith ar gyfer Adferiad Gofal Cymdeithasol – Gwellu Iechyd a Gofal Cymdeithasol (COVID-19: Edrych tua'r Dyfodol)' Llywodraeth Cymru yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer adferiad y bydd angen eu rhoi ar waith i gefnogi'r canlynol:

- pobl, gan gynnwys plant a phobl ifanc, y mae angen gofal a chymorth arnynt neu sy'n wynebu risg o'r fath, a'u teuluoedd
- gofalwyr di-dâl y mae angen cymorth arnynt
- y gweithlu gofal cymdeithasol
- darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys darparwyr gofal wedi'u rheoleiddio, cyflogwyr a chomisiynwyr

Mae papur gwyn [Ailgydbwyso gofal a chymorth \(2021\)](#) Llywodraeth Cymru yn cynnig bod angen i'r trefniadau presennol ar gyfer gofal cymdeithasol gael eu cryfhau a'u cysoni o'r newydd er mwyn ymateb i'r amrywiol heriau y mae'r sector yn eu hwynebu, ac i wireddu'r weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol a nodwyd yn Neddf 2014, gan helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant.

Mae'n hanfodol yn y dyfodol fod adnoddau digonol ar gael er mwyn i wasanaethau ar gyfer plant anabl a'u rhieni/gofalwyr adfer yn llawn, datblygu a gwella. Bydd angen i awdurdodau lleol a'u partneriaid adeiladu ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda yn ystod y pandemig a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i arloesi ac ail-lunio gwasanaethau. Bydd hyn yn helpu i ddiwallu anghenion plant anabl a'u teuluoedd a chreu cymunedau cynhwysol sy'n ei gwneud yn bosibl i blant anabl ffynnu.

Bydd angen i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer Statudol ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth, a roddwyd ar waith o fis Medi 2021. Mae'r Cod yn nodi'r hyn y gall pobl awtistig, eu rhieni a'u gofalwyr ei ddisgwyl gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau eu bod yn ystyried anghenion pobl awtistig wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Bydd angen iddynt ystyried yr holl agweddau ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys asesu sut y gall elusennau a'r trydydd sector helpu. Rhaid i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG roi sylw i unrhyw ganllawiau a nodwyd yn y Cod a'r canllawiau ategol.

Nododd yr adolygiad hwn bethau tebyg a gwahanol o ran darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i blant anabl a'u teuluoedd yng Nghymru. Nodwyd canfyddiadau allweddol, meysydd o ymarfer da a meysydd y mae angen eu cryfhau a'u gwella. Roedd rhai o'n canfyddiadau allweddol yn adleisio rhai o'r materion allweddol a nodwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru¹⁷.

Weithiau, roedd diffyg cysylltiad rhwng yr hyn a ddywedodd awdurdodau lleol wrthym a'r hyn a ddywedodd rhieni/gofalwyr wrthym. Roedd hyn yn dangos pa mor bwysig ydyw bod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn ceisio barn plant anabl a'u rhieni/gofalwyr ac yn gwrando arnynt, ac yn ymgynghori â phlant anabl a'u rhieni/gofalwyr yn rheolaidd. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y mae angen ei wella er mwyn helpu plant anabl i gyrraedd eu llawn botensial a ffynnu.



¹⁷ Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2020/21 (complantcymru.org.uk)

Beth sy'n digwydd nesaf

Dylai canfyddiadau ein hadolygiad gael eu hystyried gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'u partneriaid er mwyn helpu i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd i blant anabl a'u teuluoedd ledled Cymru.

Mae awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a darparwyr gwasanaethau yn debygol o wynebu heriau wrth iddynt barhau i ddarparu gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd ac ymateb i'r pandemig ar yr un pryd. Wrth i

wasanaethau ddechrau adfer, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod plant anabl a'u teuluoedd yn cyflawni canlyniadau da a hyrwyddo dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau. Bydd ein rhaglen arolygu ac adolygu barhaus yn ystyried y risgiau a'r heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu, yn ogystal â'u cyflawniadau a'u datblygiadau. Edrychwn ymlaen at weld a chlywed am enghreifftiau cadarnhaol o ymarfer sy'n hyrwyddo canlyniadau da i blant anabl a'u teuluoedd.



Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr adolygiad hwn, yn ystod cyfnod a fu'n heriol iawn.

Diolch i bawb a rannodd eu safbwyntiau, gan gynnwys y rhanddeiliaid allweddol a roddodd wybodaeth i ni a lywiodd ein prif lwybrau ymholi; ymarferwyr ac awdurdodau lleol a gymerodd ran yn ein rhaglen beilot ar gyfer arolygwyr sy'n gymheiriaid; awdurdodau lleol a byrddau iechyd am eu hymateb cadarnhaol i'r adolygiad, hyd yn oed yng nghanol y

cyfnodau mwyaf heriol o'r pandemig; Anabledd Dysgu Cymru am ei gymorth i ddatblygu'r arolwg hawdd ei ddarllen i rieni/gofalwyr ac yr adroddiad trosolwg, ac hefyd am hwyluso digwyddiadau ymgysylltu â phlant anabl; AGIC am gefnogi ein gwaith; ac yn olaf, y plant anabl a'u rhieni/gofalwyr a roddodd o'u hamser i rannu eu barn.

Mae'r holl gyfraniadau wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn.



Atodiadau


Ein Dull Gweithredu

Yr hyn a wnaethom. Gwnaethom y canlynol:

- gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu'r prif lwybrau ymholi ar gyfer yr adolygiad
- gweithio gydag AGIC i ddeall sut mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn cyfrannu at brofiad a chanlyniadau plant anabl a'u rhieni/gofalwyr y mae angen cymorth arnynt
- dosbarthu ffurflen hunanwerthuso i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru Er i'r pandemig darfu arnynt, cwblhaodd yr awdurdodau lleol eu ffurflenni hunanwerthuso, a roddodd wybodaeth fanwl am wasanaethau i blant anabl ledled Cymru. Roedd y ffurflenni hunanwerthuso yn rhoi gwybodaeth feintiol ac ansoddol¹⁸
- cynnal arolygiadau o wasanaethau i blant anabl yng [Nghyngor Sir Ceredigion](#), [Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#), [Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf](#), a [Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen](#). Edrychwyd ar gyfanswm o 180 o ffeiliau achos yn ystod yr arolygiadau hyn. Ymatebodd 162 o rieni/gofalwyr a 172 o staff awdurdodau lleol i'n harolwg
- siarad â phlant anabl, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol o awdurdodau lleol, iechyd a'r sectorau gofal annibynnol a gwirfoddol a/neu gael adborth ganddynt
- yn ogystal â'r pedwar arolygiad a gynhaliwyd gennym, ymgymryd â gweithgarwch adolygu perfformiad/sicrwydd yng Nghyngor Caerdydd, Cyngor Sir Benfro, Cyngor Sir Gâr, Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yr oedd pob un ohonynt yn cynnwys ffocws ar blant anabl, gan gynnwys adolygiad o 20 o ffeiliau achos. Siaradwyd â rhieni/gofalwyr plant anabl ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol o awdurdodau lleol, iechyd a'r sectorau gofal annibynnol a gwirfoddol. Dosbarthwyd 'arolwg i rieni/gofalwyr' a chafwyd 114 o ymatebion gan rieni/gofalwyr sy'n byw yn yr ardaloedd awdurdod lleol. Yn ogystal â'r ymatebion hyn, cawsom 22 o ymatebion eraill i'r arolwg gan rieni/gofalwyr sy'n byw mewn chwe ardal awdurdod lleol lle na roesom ffocws arbennig ar blant anabl. Roedd cyfradd ymateb yr arolwg i rieni/gofalwyr mewn perthynas ag awdurdodau lleol unigol lle y cynhaliwyd arolygiad neu weithgarwch adolygu perfformiad/sicrwydd gennym yn amrywio gryn dipyn ledled Cymru. Wyth deg pump o ymatebion oedd y gyfradd ymateb uchaf a 10 oedd y gyfradd ymateb isaf
- trefnu tri digwyddiad ymgysylltu â phlant anabl o bob rhan o Gymru
- adolygu ystadegau swyddogol ac ymchwil Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phlant anabl sy'n derbyn gofal a chymorth, sydd ar gael yn <https://statscymru.llyw.cymru>

¹⁸ Ymwadiad data: Daeth y data o hunanwerthusiadau gan awdurdodau lleol ledled Cymru rhwng 1 Hydref 2018 a 30 Medi 2019 ar gyfer y pedwar awdurdod lleol lle y cynhaliwyd arolygiad o wasanaethau i blant anabl, a rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2019 a rhwng 1 Mai a 31 Gorffennaf 2020 ar gyfer y 18 o awdurdodau lleol eraill. Gall fod gwybodaeth anghywir ac anghyson lle mae cwestiynau wedi cael eu camddehongli, felly dylid ystyried bod y data at ddibenion enghreifftiol yn unig. Ni ellir dwyn AGC yn gyfrifol am unrhyw data anghywir a gyflwynwyd gan sefydliadau heblaw Llywodraeth Cymru.

Plant yn derbyn gofal a chymorth yn ôl Awdurdod Lleol ac anabledd ar 31ain o Fawrth 2020



Plant yn derbyn gofal a chymorth yn ôl statws derbyn gofal ac anabledd ar 31ain o Fawrth 2020

